

ECO'r Wyddfa

Rhif: 449
Rhagfyr 2016
Pris: 70c



Tymor Ewyllys Da yn cychwyn yn gynnar

Mae'r tymor ewyllys da wedi cychwyn yn gynnar ym Methel. Cyn diwedd Tachwedd cynhaliwyd dau ddigwyddiad llwyddiannus sy'n dangos fod y trigolion yn meddwl am rai llai ffodus fel mae'r Nadolig yn nesau.

Aelodau a chefnogwyr y Clwb Peldroed fu'n cynnal noson i gasglu ar gyfer Apel Bocsys Nadolig, a llwyddwyd i anfon bron i ddeg ar hugain ohonynt i deuluoedd bregus yng ngwledydd Romania a Belarus.

Y Cyngorydd Sion Jones fu'n gyfrifol am drefnu'r ail ddigwyddiad, fu'n casglu dilladau ar gyfer eu hanfon i Thesalonica yng Ngwlad Groeg. Yma mae un o'r canolfannau prysuraf sy'n derbyn ffoaduriaid o Ogledd Affrica.

Mwy o hanes y ddau ddigwyddiad ar dudalen 8.

**RHIF 449
Rhagfyr 2016**

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor

Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com**

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Swyn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifon Roberts,
Swyn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2015

Rhifyn
Nadolig/Ionawr

Copi i law
Rhagfyr 4

Bwndelu
Rhagfyr 16

Ble
Llanrug

LLYTHYRAU

Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad newydd ar gyfer pawb sy'n caru'r iaith Gymraeg.

Nod Dyfodol yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd Cymru a bod y Gymraeg yn parhau'n fater byw ar yr agenda wleidyddol.

Am y tro cyntaf ers dyddiau Owain Glyndŵr, mae gennym Gynulliad â'r hawl i lunio deddfau Cymreig, a'r grymoedd i newid sefyllfa'r Gymraeg er gwell. Ond ydy'r ewyllys gennym i fynd i'r afael â'r dasg? Bydd Dyfodol yn gweithredu drwy ddulliau cyfansoddiadol yn unig ac yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, y pleidiau gwleidyddol, arweinwyr cyrff cyhoeddus ac eraill i roi'r iaith Gymraeg wrth galon eu polisiau a'u gweithgareddau.

Mae angen grŵp pwyso annibynnol fydd yn hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob maes posib. Corff proffesiynol, gyda swyddogion wrth ddrysau'r Cynulliad.

Ymunwch â ni ar y daith. Ymlaen i'r Dyfodol.

Os ydych yn dymuno prynu 'Anrheg i'r Iaith' cysylltwch â Meirir James, Swyddog Datblygu Dyfodol i'r Iaith,

Ochr y Cwm, Croesyceiliog,
Caerfyrddin SA32 8DS.

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau am nad ymddangosodd y rhoddion a dderbyniwyd yn y rhifyn diwethaf. Maent wedi eu cynnwys y mis hwn ynghyd â'r rhoddion diweddaraf. Mae'r "Eco" yn ddolchgar am bob rhodd a dderbynnir er mwyn helpu i gynnal y papur. £20: Elwyn Foulkes, 3 Rhos Bryn, Cwm y Glo; John H. Hughes a Matti, Glyder, Ffordd Capel Coch; Er cof am W.T. Roberts (Wil Lôn Bost), Maes Padarn, Llanberis; Elizabeth Evans a'r plant, Pen Parc, Bethel; Dienw; Megan Owen, 3 Nant y Glyn, Llanrug.

£10: Mrs Margaret Jones, Penrhyn, 5 Bro Eglwys, Bethel; Neville T. Jones, 14 Tai Caradog, Deiniolen; Iris Morris, Llanberis; Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa; Deiniolen. Eirwen ac Alwyn ar ran eu mam, Mrs Priscilla Williams, Dinorwig; Mrs Betty Ann Jones, Tan y Buarth Uchaf, Dinorwig; Betty Pritchard, 3 Llysygwynt, Penisarwaun; Colin Rowlands er cof am Michael Mothersole; Arthur Jones, 12 Hafan Elan, Llanrug; Vera Williams, Awelon, Llanrug; Enid Jones, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

£5: Kathryn Jones, Y Ddolwen, Bethel; Nia Oliver, Gors, Brynrefail; Beti Roberts, Rhydfadog, Deiniolen.



**2 o'rgloch DYDD SUL
RHAGFYR 18 2016
MYNYDD GWEFRU
LLANBERIS**

☆ Seindorf Arian Deiniolen
☆ Côr Meibion Dyffryn Peris
☆ Unawdwyr lleol o fri

MYNEDIAD AM DDIM

BYDD CASGLIAD AT ACHOSION LLEOL



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

**CENTRAL GARAGE
LLANBERIS**

FFON- (01286) 870202

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House
LLANRUG**

**PEN
CIGYDDION
Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

Yn ystod y mis a aeth heibio...

Mae'r syrzas o flwyddyn yn parhau:

- Penderfynodd yr Uchel Lys nad oedd hawl gan Theresa May i gychwyn y broses o adael Ewrop heb bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin. Beirniadwyd y barnwyr yn hallt gan y wasg adain dde; yr union rai a fu'n brygowthan am hawlio Cyfraith Prydain yn ôl o afael Ewrop. A phan benderfynodd Cyfraith Prydain? Apêl. Ac os bydd yr apêl honno'n methu, a fyddant yn ddigon haerllug i apelio i'r Llys Ewropeaidd?
- Bu daeargryn gwleidyddol yn yr Unol Daleithiau yn dilyn ymgyrch hynod fudr, a thunnelli o fwd yn cael eu lluchio gan y naill ochr a'r llall. Mae Trump eisoes wedi cychwyn ar y broses o benodi ei dim rheoli, gyda'i ddarpar Dwrnai Cyffredinol eisoes wedi ei feirniadu am fod yn hiliol.
- Ac y mae tueddiadau eithafol asgell dde yn Ffrainc hefyd, gyda Marine le Pen o blaid y Ffrynt Cenedlaethol yn cael cryn sylw a chefnogaeth. Yr un yw'r hanes yn Awstria, gyda'r posibilrwydd o gael arlywydd yn yr etholiad fis Rhagfyr fyddai'n cynrychioli Plaid Rhyddid, plaid eithafol asgell dde arall.
- Ar ddiwrnod casglu arian i Blant mewn Angen, cyhoeddwyd fod £370 miliwn i'w wario ar adnewyddu Palas Buckingham, a ninnau drethdalwyr yn cael y fraint o dalu amdano. Bydd y Grant Brenhinol (sy'n 'helpu' i gynnal un o deuluoedd cyfoethocaf gwledydd Prydain) yn cynyddu o £42 miliwn y flwyddyn i £76 miliwn y flwyddyn nes i'r gwaith gael ei gwblhau. Yn y cyfamser, bydd Cyngor Gwynedd a phob cyngor arall led-led y wlad yn dal i chwilio am arbedion ariannol oherwydd fod Llywodraeth Llundain wedi penderfynu fod yn rhaid i ni fyw yn fwy darbodus. A chost cynnal ein gwasanaeth iechyd yn parhau i gynyddu.
- Toblerone yn lleihau; marmite yn prnhau. Be nesa'? Wel, mae 'maltesers' yn mynd yn ysgafnach na'i hysbysebion. Mae siocled 'Quality Street' yn debygol o ddiflannu, a dydi lori coca cola ddim yn dod i Gaernarfon. Ydi hi'n werth edrych ymlaen am 'ddolig d'wch'?
- Ac ar ddiwrnod gosod y rhifyn hwn o'r "Eco" daeth Y Gyllideb, a'r newyddion fod Cymru fach i dderbyn £400 miliwn yn anrheg Nadolig neu'n galennig gan Sion Hammond Corn. Dim ond £30 miliwn yn fwy na'r frenhines druan....
- ... a phwy a ŵyr nad oes mwy o berfformiadau anhygoel y syrzas i ddod cyn diwedd y flwyddyn.

Sioe deithiol amgylcheddol ym Methel



Mae cynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd wedi galluogi disgyblion o ysgolion cynradd ledled y sir i gyfarfod y diddanwyr poblogaidd Y Brodyr Greogry yn ddiweddar wrth iddynt deithio o amgylch unwaith eto eleni yn codi ymwybyddiaeth am wahanol faterion amgylcheddol. Yn ystod y daith cafwyd ymweliad ag Ysgol Bethel. Mae Sioe Trefi Taclus wedi ei gynnal ers tair blynedd bellach ac wedi ei gefnogi drwy grant Llywodraeth Cymru. Mae'r sioe yn anelui addysgu a chodi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol fel taflu sbwriel, baw c'n, a'r angen i ail ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Mae'r perfformiadau yn ysgafn ac yn hwyliog gyda chymeriadau Ted Taclus ac Eli Eco yn cynorthwyo'r brodyr. Meddai Jonathan Gwyn Neale, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd: "Mae'r sioeau wedi bod yn un o'n prosiectau mwyaf llwyddiannus hyd yn hyn, gyda dros 4,000 o blant Gwynedd wedi elwa o'r cynllun. Rydym yn gobeithio y bydd eu profiad a'r negeseuon amgylcheddol sydd wedi eu cyflwyno yn aros gyda nhw drwy gydol eu hoes." Cafodd y sioe deithiol ei threfnu gan gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. I ddarganfod mwy am Drefi Taclus yng Ngwynedd, cysylltwch â'r Swyddog Trefi Taclus ar: 01766 771000 neu e-bostiotrefitaclus@gwynedd.llyw.cymru

GAIR GANY GOLYGYDD.

Gair o groeso i Marged Rhys sy'n ymuno â thim yr "Eco" ac wedi derbyn cyfrifoldeb am newyddion ac erthyglau am ac i'r ifanc (ond sydd yr un mor ddiddorol i bawb, wrth gwrs!). Felly, am ddiffyg teitl addas i'w swydd newydd, hi fydd Golygydd yr Ifanc o hyn ymlaen. Croeso.

Coeliwch neu beidio, ond fe dderbyniwyd tua cant a hanner o luniau i'w cynnwys yn y rhifyn hwn! Roeddynt yn darlunio gwahanol weithgareddau disgyblion ysgolion cynradd y fro, a

chystadleuwyr ac enillwyr tair o'r eisteddfodau lleol: Bethel, Gwaun Gynfi a Llanrug. Doedd dim posib eu cynnwys i gyd. Felly, lluniau grwpiau yn hytrach nac unigolion sydd wedi eu cynnwys er mwyn rhoi sylw i gymaint o blant ac ieuencid y fro a phosib. Ymddiheuriadau i rieni y rhai na chawsant eu llun yn y papur (mae'n hawdd pechu!!!). Y gobaith yw cael dangos mwy o luniau yn rhifyn y Nadolig.

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"

DIONI
<http://dioni.co.uk>
 tel: 01341 247 200
 ebost: gwion@dioni.co.uk

grid 76
 graphic design

**North Wales
 SIGNS**
 Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673

Tudalen yr Ifanc



Mae Charlotte Bellis yn grefftwraig dalentog o Lanberis sy'n creu gemwaith ac addurniadau porlen prydferth o'i gweithdy ym Mhenisarwaun. Dyma'r Eco'n mynd i ddysgu mwy amdani:

O ble wyt ti'n wreiddiol a ble ges di dy addysg?

Ges i fy ngeni yng Nghaerfaddon yna fe symudom i Ogledd Cymru i fod yn agosach at y teulu pan o'n i'n ddwy. Es i Ysgol Brynrefail yna i Goleg Menai cyn mynd i'r brifysgol yn Carlisle.

Pryd wnes di ddarganfod dy fod yn hoff o wneud celf/greu crefftwaith?

Dwi wastad wedi mwynhau celf, o'n l'n paentio a chreu pethau trwy'r amser pan o'n l'n fach. Yna, o'n i wrth fy modd efo celf yn yr ysgol felly wnes i benderfynu parhau yn Coleg Menai mewn cwrs dwy flynedd Celf a Dylunio. Yn ystod fy amser yn y coleg roedd gen i ddiddordeb mewn ymchwilio technegau gwahanol a gweithio gyda deunyddiau gwahanol, ro'n i'n caru'r rhyddid i ddarganfod pethau newydd. Penderfynais barhau i astudio fyny yn Carlisle yn y Cumbria Institute of the Arts gan raddio gyda BA(hons) mewn Serameg a Tecstilau Print.

Pam wyt ti'n gweithio gyda porlen? Sonia ychydig am y broses...

Yn y brifysgol o'n l'n caru gweithio gyda chlai a wnes i wir fwynhau creu porlen, dwi'n caru ei freuder a'r purdeb sydd ganddo. Mae'n anhygoel sut mae'r dal pob gwedd a marc ac yn gallu cael ei blygu mewn i siapiau prydferth. Dwi'n gweld y trawsnewidiad yn y proses yn ddiddorol iawn, o'i ffurf naturiol l'r amser wedi iddo gael ei ffrio yn yr odyd ac yna wedi iddo gael ei wydro. Mae'r darnau i gyd yn gallu

edrych mor wahanol o'r dechrau i'r diwedd felly mae'n cymryd lot fawr o ddychymyg a lot o ymarfer i wybod sut bydd y darnau'n edrych ar y diwedd, dyna sy'n cadw pethau'n ddiddorol i mi, mae pob darn yn wahanol.

Mae natur a phlanhigion yn agwedd mawr o dy waith. O ble ddaeth y syniad o gynnwys rhain?

Dwi wastad wedi caru natur a bod ym myd natur, rydym mor lwcus o gael mynyddoedd, llynnoedd a'r môr ar ein stepen drws felly dwi drwy'r amser yn edrych at natur am ysbrydoliaeth. Dwi'n defnyddio porlen i ddal siapiau a gwedd organig gan weithio gyda phlanhigion a phwyso nhw mewn i'r porlen er mwyn dal y manylion cain.

Pa bethau wyt ti'n hoff o'i greu fwyaf a pham? Gemwaith, addurniadau...?

Dwi'n mwynhau gwneud popeth, a dwi'n hoffi fy mod yn gallu mynd o wneud pethau bach a chymhleth mewn gemwaith neu'r placiadau yna'n gweithio ar ddarnau mawr comisiwn fel y cerfluniau sy'n hongian o'r to.

Ble all rhywun ddarganfod mwy a phrynu dy ddeunydd? Unrhyw siopau lleol?

Llynedd wnes i ddod yn rhan o Siop lard ble dwi'n gweithio gyda pump artist talentog arall ac yn gwerthu fy ngwaith yn Siop lard Caernarfon a Phyllheli. Dwi hefyd yn gwerthu mewn rhai siopau lleol ac yn werthu ar-lein, er mod l'n ail-ddylunio'r wefan fydd yn barod yn fuan. Gallwch weld fy ngwaith ar dudalen Facebook 'Charlotte Bellis Designs - Dylunydd' a chysylltu ynglyn a fy ngwaith, comisiynau ac ymweliadau i'r gweithdy yno. Byddaf hefyd yn gwerthu fy ngwaith yn Ffeiriau Nadolig Glynllifon a Phortmeirion eleni.

Hanes Patagonia



Mae Osian Edwards o Lanrug a Lisa Hughes o Fethel newydd ddychwelyd o drip bythgofiadwy ar ôl mynychu'r daith flynyddol i Batagonia gyda Urdd Gobaiith Cymru. Roedd y ddau o Ysgol Brynrefail yn rhai o'r 24 o bobl ifanc o Gymru roedd rhwng 16 a 18 oed a oedd yn ddigon ffodus i ennill eu lle ar y daith anhygoel hon.

Treuliodd y ddau bythefnos yn dilyn rhaglen o weithgareddau gan gynnwys ymweliadau i'r Andes mawreddog, y Parc Cenedlaethol, Porth Madryn a Buenos Aires. Cafodd y criw'r fraint o aros yn Nhrevelin, Esquel, Gaiman a Trelew. Yn ogystal, treuliant amser gyda phobl leol o bob oed, o'r henoed i bobl ifanc a phlant mewn ysgolion a cholegau. Cawsant flas ar Asado (barbeciw De Americanaidd), raffio

dwr gwyn, cynhaliodd llawer o gyngherddau yn y pentrefi lleol, mynychu'r Gymanfa Ganu a chynnal Noson Lawen i drigolion y pentref, yn ogystal â chystadlu yn Eisteddfod Chubut, enillodd côr yr Urdd unwaith eto eleni.

Roedd casglu tu hwnt o'r targed o £2,400 yr un yn her, llwyddodd y ddau i gasglu'r arian gan gynnal noson blasu gwin, taith gerdded nodedig i fyny'r Wyddfa, gwerthu rafflau mewn eisteddfodau a nifer o ddigwyddiadau cyffrous yn yr ysgol. Hoffai y ddau ddiolch yn fawr i unrhyw un gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i'w hariannu i fynychu'r daith, maent yn gwerthfawrogi caredigrwydd y gymuned ac yr ysgol am eu cymorth a'u cyfraniad hael.

Tudalen yr Ifanc | Son am Sin

Mae dau ddyn ifanc o'r fro yn prysur wneud enw i'w hunain fel arolygwyr yr SRG (Sin Roc Gymraeg). Yn ddiweddar gwnaeth Chris Roberts o Lanrug a Gethin Griffiths o Fethel droi eu diddordeb o gerddoriaeth Gymraeg mewn i rywbeth mwy gan ddechrau eu blog Sôn am Sîn. Dros y misoedd nesaf mae Gethin a Chris am drin a thrafod y gerddoriaeth orau sydd gan fro'r Eco i'w gynnig gan ddechrau drwy edrych yn ôl ar gynnyrch y deuddeg mis diwethaf:

"Mae'n debyg mai Y Bandana oedd testun prif newyddion cerddorol ein hardal dros y flwyddyn, a hynny gan iddynt gyhoeddi eu bod yn rhoi'r gorau iddi. Wedi naw mlynedd o berfformio cyson ar hyd a lled ein gwlad, ni fydd modd clywed eu hanthemau oesol mewn gig yn y dyfodol agos. Mae'n deg dweud mai'r grwp, a oedd yn cynnwys Gwilym Bowen Rhys a Robin Llwyd Jones, y ddau yn hogia' Bethel, oedd grwp mwyaf llwyddiannus ein hardal dros y cyfnod hwnnw, a bydd y genedl yn siwr o golli eu brwydfrydded a'u hiwmor wrth chwilio am eu Bandana nesaf. Mae llawer ohonom yn cofio'r perfformiadau lleol cyntaf hynny gyda'r pedwar ohonynt yn gwisgo'u bandanas ar lwyfannau'r fro, ac wrth i'w cynulleidfa gynyddu'n genedlaethol, roeddem

i gyd yn hawlio mai ni a'u gwelodd nhw gynta'. Mae'u blwyddyn ola' nhw wedi bod yn un i gofio gan iddynt ryddhau eu trydydd albwm 'Fel Tôn Gron', cloi Maes B ar y nôs Wener a chwarae gig olaf arbennig yn Gaernarfon, hefo 500 tocyn wedi gwerthu ymhell o flaen llaw a fydd yn siwr o aros yn y co' am amser hir.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddiwedd arnynt fel cerddorion, o bell ffordd. Mae Gwilym erbyn hyn yn ran o driawd Plu, gydag Elan a Marged ei chwiorydd, ac nid oes modd trafod 2016 heb grybwyll llwyddiannau'r triawd hwnnw. Roedd y tri ohonynt yn ran o brosiect cyffrous, ynghyd â Carwyn Ellis o'r grwp Colorama, a llu o offerynnwyr amrywiol, medrus. Cynhaliwyd tri pherfformiad gan 'Bendith', gydag un ohonynt mor bell â Manceinion, yn ogystal â rhyddhau albwm hyfryd o ddeg cân a ysgrifennwyd ar y cyd gan y swper-grwp. Bu iddynt dderbyn sylw estynedig, ac rydym yn ysu i gael clywed mwy ganddynt. Os nad ydych wedi clywed cerddoriaeth y grwp, sydd yn blethiad perffaith o gerddoriaeth soniarus Plu a seicadelia arloesol Colorama - ewch i brynu'r albwm yn syth!

Warden Eryri

Wedi ei magu ar fferm fynydd yn Llanberis, graddiodd Bethan Wynne yn ddiweddar o Brifysgol Bangor gyda MSc mewn Gwyddoniaeth Gwlypdir a Chadwraeth ac mae hi wedi gwirioni gyda natur. Nawr yn Warden Tymhorol gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, aeth yr Eco i ddarganfod sut brofiad yw gweithio ar gopaon mynyddoedd mawr ym mro'r Eco:

"Mae'r chwilfrydded anfeidrol sydd gen i am y byd natur yn gyrru fy awydd i ddiogelu a gwarchod ein hamgylchedd a'r creaduriaid sy'n bodoli o'n cwmpas - felly, yn naturiol, roeddwn wrth fy modd pan glywais fy mod wedi llwyddo i sicrhau rôl fel Warden Tymhorol i Barc Cenedlaethol Eryri yn gynharach eleni! Does gen i ddim math o syniad ble mae'r chwe mis diwethaf wedi mynd ond dyma i chi gipolwg o'r hyn oeddwn i'n cael ei wneud dros yr haf...

Cychwynnai ddiwrnod arferol am 08:00 ym Mhen y Pass (ar gychwyn Llwybr y Mwynwyr ar PYG) gyda diweddariad i ragolygon y tywydd; sy'n bwysig iawn os ydych yn mynd i fyny'r mynydd! Wedi i ni ysgrifennu adroddiad tywydd ar y byrddau gwyn (ac wedi yfed ein paneidiau!) nesaf ar y rhestr oedd croesawu ymwelwyr i'r rhan anhygoel yma o'r byd (cerddwyr, dringwyr, beicwyr ac ati). Mae'r myrdd o fywyd gwyllt a'r tirweddau trawiadol ynghyd a bod y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr yn golygu bod yr Wyddfa yn fynydd hynod o boblogaidd! Fel gwardeiniaid, rydym wrth law i roi gwybod i'r cerddwyr pa lwybrau gallent gerdded a rhoi gwybod am ddiogelwch ar y mynydd yn ogystal â helpu

gydag unrhyw faterion eraill (parcio a bysiau yn bennaf!). Ar y penwythnosau bydd y Gwardeiniaid Gwirfoddol yn cyrraedd tua 08:30 - mae'r cynllun warden gwirfoddol wedi bod ymlaen ers tua 3 blynedd nawr, gyda rhai unigolion brwd ac ymroddedig dal i ddychwelyd hyd heddiw! Yn yr un modd, mae'r rôl yn cynnwys darparu gwybodaeth, cyngor a sicrwydd ar ddewis llwybr a diogelwch ar y mynydd ynghyd a chadw'r llwybrau prysuraf yn rhydd o sbwriel a gwneud gwaith cynnal a chadw llwybrau troed sylfaenol. Casglwyd llond 350 o fagiau o sbwriel o'r llwybrau prysuraf yr haf hwn - felly mae diolch enfawr yn mynd i'r Gwardeiniaid Gwirfoddol! Byddai'r 'mad rush' o ymwelwyr yn tawelu tuag amser cinio fel arfer - signalau ei bod yn amser i roi'r 'sgidiau cerdded ymlaen a mynd allan ar batrôl tuag at y copa.

Ar ddyddiau llai prysur, byddem yn mynd i fannau eraill o gwmpas yr Wyddfa i arolygu a chofnodi cyflwr llwybrau a'r giatiau a chamfeydd, helpu clirio draenau, adeiladu pontydd (yn llythrennol!), casglu sbwriel, mynychu digwyddiadau lleol, gweithio gyda gwirfoddolwyr a thirfeddianwyr ac yn fwy na dim gwneud y mwyaf o'r man anhygoel rydym yn byw ynddo. Hyd yn oed mewn cyfnod mor fyr, dysgais gymaint, ac fe ges i brofiad o lygad y ffynnon o'r ymdrech sy'n mynd i mewn i reoli mynydd ac ardal mor boblogaidd. Mae'r cyfle i gael cwrdd ag ymwelwyr o bob math o gefndiroedd, y fraint o weld 'Lili'r Wyddfa' (Diolch, Rhys!) a gweithio gyda chriw gwych o bobl yn ddim ond taimad bach o'r nifer o uchafbwyntiau o weithio fel Warden tymhorol! Byddwn i'n bendant yn annog unrhyw un a phawb i gymryd rhan.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop

HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

LLYGAD YR HAUL
Caffi/Deli
STRYD FAWR LLANBERIS
Ffon-01286 870814

NADOLIG LLAWEN a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277



PENISARWAUN

ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

Dymuniadau Da Mae Betty Pritchard yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Ysgol Penisarwaen

Cynhaliwyd Ffair Grefftau Nadolig lwyddiannus iawn yn yr ysgol nos Iau, Tachwedd 10fed. Roedd y Neuadd yn werth ei gweld ac yn lliwgar iawn gyda'r holl stondinau. Gobeithir cynnal noson arall y flwyddyn nesaf. Diolch i Sharon a Staff yr ysgol am wneud y trefniadau. Roedd plant CA2 wedi paratoi stondin i werthu nwyddau ar gyfer Apêl Nepal. Gwnaed elw o £73, diolchwn i Ysgol Sul Bosra am eu cyfraniad hwythau o £27 er mwyn sicrhau y byddwn yn gallu trosglwyddo **£100 i'r Apêl** er mwyn gallu prynu eitemau angenrheidiol ar gyfer y plant bach yn Nepal.

Bore Gwener, Tachwedd 11eg, am 11 o'r gloch treuliyd amser tawel ger y gofeb sydd yng nghyntedd yr ysgol i gofio am fechgyn y pentref a gollodd eu bywydau yn y rhyfel.

Croesawyd Mari Gwilym at blant y Cyfnod Sylfaen bore dydd Gwener, Tachwedd 11eg. Bu'n brysur yn darllen rhigymau a storïau i'r plant roedd pawb wedi cael hwyl. Diolch o galon i Mari.

Treuliodd plant Bl 6 ddiwrnod yn Ysgol Brynrefail dydd Mawrth, Tachwedd 15fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r profiad.

Trefnwyd Noson Bingo gan

y" Cyfeillion" nos Fercher, Tachwedd 16eg, i godi arian i Gronfa'r Ysgol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cafodd y plant gyfle i ddod i'r Ysgol yn ei gwisg eu hunain dydd Iau, Tachwedd 17eg, gan dalu dirwy o £1. Roedd Cylch Ti a Fi wedi trefnu i werthu cacennau yn ystod eu sesiwn yn y pnawn a chafodd plant yr ysgol gyfle i brynu rhai. Trosglwyddwyd yr arian a gasglwyd, **sef £100 i gronfa Plant Mewn Angen**. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. Croesawyd Mr Andrew Setatree i'r ysgol fore Iau, Tachwedd 17eg, i gynnal y Gwasanaeth boreol. Llongyfarchiadau i Branwen o BL5 am ei llwyddiant yng ngala Nofio'r Urdd a gynhaliwyd ym Mhwl Nofio Bangor dydd Sadwrn, Tachwedd 19eg. Daeth yn 3ydd yn y dull rhydd a pili pala.

Bydd Anti Carolyn yn paratoi cinio Nadolig dydd Mercher, Rhagfyr 7fed. Mae cyfle i'r plant Meithrin ymuno â ni yn ogystal â'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd, y gost fydd £2.30c.

Cynhelir Pnawn Te Nadolig dydd Mawrth, Rhagfyr 13eg, am 2 o'r gloch. Bydd cyfle i ganu carolau a gwrando ar eitemau gan blant yr ysgol. Bydd Paned a mins pei i'w gael ar y diwedd. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir y Sioe Nadolig yn Neuadd yr Ysgol nos, Iau Rhagfyr 15fed, am 6 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Byddwn yn mynd â phlant BL 0 i 6 i "Pontio" Bangor pnawn dydd Gwener, Rhagfyr 16eg, i weld

y Sioe "Raslas Bach a Mawr". Bydd cyfle i'r plant (a'r oedolion!) wisgo siwmpwr Nadoligaidd a thalu dirwy o £1. Byddwn yn trosglwyddo'r arian i gronfa Achub y Plant.

Cronfa Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Hydref oedd Mr Henry Jones, 25 Bryn Tirion, gyda rhif 42. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig y Pensiynwyr - Byddwn yn mynd i westy'r Buckley ym Miwmares bnawn dydd Sadwrn, Rhagfyr 10fed. Bydd y Bws yn cychwyn o flaen yr ysgol am 12.15 o'r gloch.

Cyfarchion Nadolig

Dymuna Nannie, 26 Bryn Tirion, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a bendithiol i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau i gyd, gan na fydd yn gallu anfon cardiau eleni.

Dymuna Arnold a Pat Jones, Tai Arthur, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu, cymdogion a chyfeillion. Byddant yn cyfrannu arian at achos da yn hytrach nac anfon cardiau Nadolig.

Dymunwn wellhad buan iawn i Bryn Roberts, 18 Bryn Tirion. Bydd yn rhaid iddo dreulio cryn amser yn yr Ysbyty yn derbyn triniaeth, ac anfonwn ein cofion gorau ato. Dymuna Steven a Susan, rhieni Bryn, ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth a charedigrwydd yn ystod y cyfnod anodd yma, mae'r cyfan wedi bod yn gysur mawr iddynt fel teulu.

Anfonwn ein cofion hefyd at


Mr Mike Orrock, Glanrafon a Mr Dylan Griffith, Tros y Waen, y ddau wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr yw: Carol Adlam, 14 Bryn Tirion ac Elwyn Williams, Bryn Rhydd.

Dymunir diolch i bawb a ddaeth i Ben y Pas i helpu rhannu dŵr i redwyr Marathon Eryri. Roedd y tywydd yn llawer mwy addfwyn na llynedd a braf oedd cael cymdeithasu a chael cyfle i annog y rhedwyr, yn cynnwys Pennaeth a Staff Ysgol Brynrefail a nifer o redwyr profiadol lleol. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y weithgaredd Catalog Webb Ivory ac am lwyddo i'w ddychwelyd yn ôl i Phyllis yn brydlon.

Cynhelir Pwyllgor i drefnu 'Te Bach Nadolig' nos Lun, Rhagfyr Sedam 700 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Cynhelir hyn bnawn Mawrth, Rhagfyr 13eg, am 2.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned gydag eitemau gan aelodau'r Pwyllgor a phlant yr Ysgol. Bydd paned a mins pei ar gael a chyfle i gymdeithasu. Croeso i chi rieni, ffrindiau a phawb ymuno â ni i ddatlu Gŵyl y Geni.

Cydymdeimlo Yn 94 mlwydd oed bu farw Mrs Peggy Mathews, Freshwinds gynt, ym Mhlas Garnedd. Gwraig addfwyn y diweddar Walter, mam, mam yng nghyfraith, nain, chwaer a chwaer yng nghyfraith annwyl. Ein cydymdeimlad llwyraf â chwi fel teulu.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau
Altro
Ailwnio

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd Dda
Oddiwrth Bawb Yn

DRAGON MOTORS
CWM Y GLO

TEL. LLANBERIS 871172

Diolch am eich Cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Parhad PENISARWAUN



Ysgol Sul Bosra Dymunir diolch i rieni'r plant am wirfoddoli i glirio o gwmpas y capel. Bu prysurdeb mawr gyda rhai o gyn-aelodau'r Ysgol Sul yn helpu hefyd. Diolch i Katty am drefnu'r cwbl. Rydym fel athrawon ac aelodau yn gwerthfawrogi eich gwaith caled.

Fore Sul y Cofio, Tachwedd 13, cofiwyd am fechgyn y Capel a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd: Griffith J. Williams, Coed Parc; a'r ddau frawd Elfed Jones a Charles Jones, Tai Arthur. Am 11.00 cofiwyd am fechgyn y pentref a gollwyd yn y Rhyfel wrth y Gofgolofn ger Porth Eglwys Santes Helen. Cafodd y plant gyfle i osod croes fechan i gofio'r bechgyn ac ymuno gydag aelodau'r Eglwys mewn dau funud o ddistawrwydd.

Fore Sul, Rhagfyr 11 edrychir ymlaen i fynd ar Drên Bach Siôn Corn ar reilffordd Llanberis. Gofynnir i bawb fod yno erbyn 10.00 y bore. Dymunir diolch i Fiona am wneud y trefniadau.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Ionawr 8fed am 10.00 o'r gloch.

BRYNREFAIL Mrs Lowri Prys Roberts. Ffôn: 870580

Sefydliad y Merched Yn ystod mis Tachwedd bu nifer o'r aelodau am gyrsiau diwrnod ym Mhlas Tan y Bwlch. Roedd y cwrs ar waith lledr dan ofal Pat Jones gydag Anita Long yn arwain y cwrs ar waith ffeltio.

Hefyd cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen leol ym mhresenoldeb Margaret Lloyd Jones. Cytunwyd fod y swyddogion presennol yn parhau yn eu gwaith. Yn dilyn, croesawyd Debbie gydag Anita Long yn cynorthwyo i roi arddangosfa goginio o ddanteithion blasus ar gyfer y Nadolig.

Cynhelir Bingo Nadolig a Bwffe yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis nos Lun, Rhagfyr 4ydd a nos Iau, Rhagfyr 15fed, dethlir y Nadolig gyda chinio blynnyddol y gangen yn y Caban.

Yr Eglwys Bresbyteriaid

Sul y Cadoediad Yn yr oedfa nos Sul, Tachwedd 13eg, gwasanaethwyd gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen. Cafwyd neges bwrpasol ganddo ar gyfer y Sul arbennig hwn drwy ddwyn i sylw ein hagwedd gyffredinol tuag at fis Tachwedd – y mis tywyll – ond hefyd gyfeirio at yr amrywiol ddyddiau penodedig a ddehlir yn ystod y mis i gofio am fywyd nifer o'n seintiau a'u neges – y cyfan yn ein harwain i brofi cyfnod o obaith tua therfyn y mis ar drothwy'r Adfent.

Oedfaon Rhagfyr

4 am 4.30: Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)

11 am 5.00: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd

18 am 2.00: Gwasanaeth Nadolig dan nawdd yr Aelodau

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225

DINORWIG Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

Diwedd y Flwyddyn A ninnau yn awr yn y mis olaf o'r flwyddyn, mae rhywun yn gorfod gofyn i ble yr aeth y flwyddyn more sydyn, y dydd wedi cwtio yn arw a thymor y gaeaf ar ein gwarthaf a'r dail o liwiau bendigedig wedi disgyn yn garped ar y llawr. Mae'r eira wedi ymddangos ar gopa'r Wyddfa, er fe fyddai'r hen bobl yn dweud flynyddoedd yn ôl, os byddai eira ar ddiwedd Hydref ar y Wyddfa, byddai hyn yn erthylu'r gaeaf. Gan fod llawer o goel ar yr hen bethau gobeithio ei fod yn gywir. Gweithgareddau y gaeaf i'w gweld i gyd wedi dechrau. Does fawr o oleuni i'w gael ac yn awr mae eisiau golau yn aml iawn yn y dydd.

Mae wedi tywyllu yn arw iawn yn ystod y gyda'r nos i fyny yma, hefyd gan bod y Cyngor wedi rhoi lampau newydd ar y ffordd sydd yn goleuo llawer iawn llai na'r hen lampau, pethau sâl iawn ydynt, fawr o gymorth i neb ac yn ein gwneud yn ofnus o fynd allan ar ôl pedwar, rhag ofn syrthio neu ddod i gyfarfod rhywun na wyddoch pwy ydynt a beth a all ddeillio o hynny. Y peth gorau yw aros yn y tŷ neu os oes raid cerdded allan, gofalu bod gennych fflachlamp reit dda.

Mae y Cyngor i'w weld yn gwneud bywyd pobl gyffredin yn anodd iawn yn yr ardal yma, dwi'n sylwi bod rhai ardaloedd yn dal hefo'r hen lampau. Braf fuasai clywed weithiau am dorri yn y top, a thipyn llai o arian i rai o'r cynghorwyr – byddai yr hen gynghorwyr yn ei wneud o'u bodd. Mae llawer o bobl heddiw ddim yn gweld eu cynghorwyr na'r syniad lleiaf pwy ydynt.

Cofion Gan fod llawer o gwyno ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion gorau atynt gan obeithio y cant adferiad iechyd llwyr a buan erbyn y Dolig.

Cofion Annwyl at Mrs Megan Morris (Minffordd gynt) yng Nghartref Plas Garnedd a Mrs Margaret Cynfi Griffith yng Nghartref Penisarwaun. Cofion yr ardal atoch eich dwy.

Dathlu'r Cant a Dau wedi Pasio Yn yr Eco mi fu imi grybwyll parti pen-blwydd Mrs Priscilla Williams, neu fel y mae yn cael ei galw gan y plant, Anti Cila. Do, fe fu iddi unwaith eto ddwyn y sylw ar Hydref 24 ac mae'n edrych fel brenhines hefo gwên fawr ar ei hwyneb ac yn llawn hwyl, hefo llu o gardiau ac anrhegion o'i chwmpas ac yn rhoi rhyw gân rwan ac yn y man. Y pen-blwydd hapus yn cael ei ganu yn Gymraeg a Saesneg lawer gwaith, ac yn methu diolch digon i Eirwen ac Alwyn, a phawb arall hefyd. Mae gofal y plant yn fawr iawn trosti ac yn sicr, ni chaiff gam ganddynt. Diolch yn fawr i bawb ym mro'r Eco am gofio am y diwrnod mawr felly, Anti Cila, ymlaen am y 103. Gan ddymuno iechyd, hapusrwydd a bendith Duw fo arnoch yn y dyddiau a ddaw.

Diolch Dymuna Cilla, Wylfa, ddiolch o galon am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd yn 102. Diolch i Ann am y bwyd blasus a'r deisen hyfryd ac i Carol am ei haddurno. Yn anffodus mae'n amhosib diolch i bawb yn unigol. Cafodd nid diwrnod, ond wythnos a mwy o fwynhau cwmni teulu a ffrindiau a chael hel hen atgofion melys. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Llongyfarchiadau i Mrs Betty Ann Jones, Tan y Buarth Uchaf ar dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Diolch Dymuna Betty Jones, Tan y Buarth Uchaf ddiolch yn fawr i'r plant, teulu a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch i bawb.

D.S. Fe fydd Eco arall allan cyn y Nadolig.

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Cydymdeimlo

Fel ardal rydym yn cydymdeimlo â Myfanwy, Aneurin a Myfyr a'u teuluoedd yn eu colled o fam annwyl, Mair Jones, Cilan. Bu Mair yn ffrind ffyddlon i lawer ac yn gefnogol i sawl un o gymdeithasau'r pentref. Roedd yn aelod selog iawn yn y Cysegr.

Aeth o gur ar drothwy Gŵyl, rhannwn golli Mair annwyl.

Ymateb rhyfeddol

Hoffai'r Cyng. Sion Jones a'i fam ddiolch i bawb am eu hymateb syfrdanol i'r apêl am fwyd a dillad i'w rhoi i ffoaduriaid. Dyma'r ail flwyddyn i'r casgliad gael ei wneud. Roedd yn codi ysbryd rhywun ac ategu ysbryd cymunedol y pentref i weld y 'mynydd' o gyfraniadau. Mae y rhoddion wedi eu trosglwyddo i Thesalonica yng Nghwlad Groeg. Dyma un o'r canolfanau prysuraf ble mae'r ffoaduriaid, sy'n herio'r moroedd, yn croesi i dir mawr Ewrop o Ogledd Affrica.

Rhybudd

Yn ddiweddar cafwyd adroddiad am ymddygiad amheus gan ddau o gwmpas tai a cheir yn y pentref. Mae eraill o gymunedau'r fro wedi derbyn sylw tebyg yn y misoedd diwethaf. Mae'n ymddangos fod y math yma o ymddygiad yn cynyddu adeg y Nadolig. Yn amlwg, dylsem oll fod yn wyladwrs, ac yn gwneud siwr nad ydym yn gadael unrhyw eitemau o werth yn ein ceir. Gofynnir i rywun a wêl

fath ymddygiad i gysylltu â'r Heddlu. Fel cymuned, gallwn oll fod yn lygaid i'n gilydd.

Adre'n ol.

Erbyn hyn, mae Lisa Huws, Stad Bro Eglwys wedi dychwelyd adref o'i hymweliad â'r Wladfa ym Mhatagonia. Bu yn brofiad anhygoel iddi a dymuna ddiolch i bawb â gyfranodd at ei chostau i wireddu'r freuddwyd. Roedd Lisa yn ran o gwmni dan nawdd yr Urdd oedd yn ymweld â'r Wladfa. Cawsant gyfle i ymweld â sawl Ysgol, a chymeryd rhan yn yr Eisteddfod.

Llongyfarchiadau

Wedi bod yn ail ar sawl achlysur, cipiodd Richard Llwyd Jones Gadair Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Daeth y wobwr am awdl ar y testun Hwnt i'r Ffin. Thema'r gerdd oedd sgil-ffeithiau os adeiladir gorsaf niwcliar Wylfa 'B'.

Cyhwfan Baneri

Mae gweld baneri y Ddraig Goch yn cyhwfan o gwmpas y pentref yn codi calon rhywun yn aml. Rydym yn ffodus yma yn y pentref fod gennym bentref sy'n cynnal gweithgareddau drwy gyfrwng y famiaith. Gallwn ymfalchio hefyd yn awyrgylch Gymreigaidd yr Ysgol. Ond, nid rhywbeth i'w gymeryd yn ganiataol yw parhad iaith. Pam felly, na wnawn adduned flwyddyn newydd i ymuno - neu ail-ymuno- ag un o'r llu gymdeithasau, glybiau

neu gapeli sy'n dal i gynnal a chefnogi'r iaith yn ei amrywiol ffyrdd. Mae gwaed newydd yn cryfhau pob corff.

Cyfarchion

Dymuna Elizabeth Evans a'r plant, Pen Parc, Bethel ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Diolch arbennig am bob caredigrwydd a chymorth â dderbyniwyd yn ystod blwyddyn anodd iawn.

Bore Coffi McMillan.

Casglwyd swm o £600.10 yn y Bore Coffi a gynhaliwyd yn y Neuadd yn ddiweddar. Dymuna'r trefnwyr ddiolch o galon i bawb a fu'n cefnogi ar y diwrnod, ac am y cyfraniadau ariannol gan rai oedd yn methu bod yn bresennol.

Clwb Bro Bethel Croesawyd Pat Jones, Brynrefail, i'r Clwb y mis yma a chafwyd prynhawn creadigol yn ei chwmi. Cafodd pawb gyfle i greu addurn Nadolig a mawr oedd y cymharu ar y gwaith gorffenedig o fwrdd i fwrdd! Bydd yr aelodau yn gwledda y mis nesaf a hynny ar Rhagfyr 6ed. Bydd y bws yn cychwyn o Penrhos am 12.00 ac yn codi yn y manau arferol.

Cymdeithas Lenyddol

Croesawyd pawb ynghyd i gyfarfod mis Tachwedd gan Gwyneth Jones, a braf oedd cael cyflwyno un o feibion y pentref, sef Gwilym Rees Williams i siarad efo'r aelodau.

Cafodd ei fagu ym Methel ond erbyn hyn mae'n byw yng Nghaernarfon. Testun ei sgwrs oedd 'Dylanwadau' a chyda cymorth lluniau cawsom hanes rhai unigolion oedd â dylanwad arno pan yn blentyn, megis y Parchedig Arthur Wyn Edwards, Ellis Jordan, Selwyn Griffith, T. Gwyn Jones ac yn y blaen. Roedd nifer o adeiladau hefyd wedi dylanwadau arno fel yr Ysgol a Festri'r Cysegr, ac roedd yn hynod o falch bod y Gymdeithas Lenyddol yn dal i ffynnu. Nid oedd gweithgareddau yn digwydd heb fod rhywun yn eu trefnu. Diolchwyd iddo gan Glenys Griffiths am sgwrs ddiddorol iawn oedd wedi dwyn i gof nifer o atgofion melyn.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Rhagfyr 13, yn Festri Cysegr gyda'r aelodau yn cymeryd rhan i ddathlu 'gŵyl y geni'. Bydd lluniaeth Nadoligaidd ar ddiwedd y noson.

Diolch Dymuna Hari Ifans ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cyfarchion a'r rhoddion pen-blwydd a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Diolch Dymuna John Maldwyn, 13 Tan y Buarth, ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am yr holl gardiau ac anrhegion ar achlysur ei ben-blwydd arbennig.

Ar nos Sul 13eg o Dachwedd cynhaliwyd noson gymdeithasol yn Neuadd Bethel wedi ei drefnu gan Glwb Pêl-droed Bethel. Penderfynodd y clwb gynnal noson i gefnogi apêl bocsys Nadolig yr elusen Teams4U sy'n darparu anrhegion Nadolig i blant a theuluoedd sydd mewn sefyllfaoedd bregus yn Romania a Belarus. Daeth nifer iawn o blant a'u rhieni, neiniau a theidiau i gefnogi ar y noson ac fe gasglwyd cyfanswm o 27 bocs. Gwerthwyd paneidiau, diodydd, creision a chacennau gan greu elw o £30 i Glwb Pêl-droed Bethel. Roedd hi'n noson wych a phawb wedi mwynhau, er bod rhai o'r rhieni wedi cymryd oriau i lapio'r bocsys esgidiau mewn papur lapio Nadolig! Cafodd

y plant amser da yn dysgu am daith y bocsys, gwneud cardiau Nadolig, creu baneri Cymru i roi yn y bocsys a chwarae gemau bwrdd a parachute. Diolch i bawb a fuodd yn gwneud cacennau i'w gwerthu (Falmai, Llŷr a Rhiannon, Cadi, Gruff a Leia, Kathline) ac am roddion tuag at y te/diodydd a'r creision (Nia). Roedd hi'n noson arbennig gan obeithio bydd yn ddigwyddiad blynyddol fydd yn tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r bocsys wedi cychwyn ar eu siwrne i Romania a Belarus ac yn cyrraedd yno mis Rhagfyr/cychwyn mis Ionawr. **Am fwy o wybodaeth am apêl bocsys Teams4U ewch i wefan teams4u.com/shoobox-appeal**

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
01286 673535
www.perkinsfurniture.co.uk
 16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

ARVONIA



- ✓ Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓ Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓ Adran teithiau grŵp.
- ✓ Tocynnau rhodd.
- ✓ I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.

01286-675175 www.arvonias.co.uk



Dwy wobwr gyntaf i offerynwyr ifanc

Mewn cystadleuaeth ddiwedd Hydref – Unawdau Pres Fodens - daeth Owain Llestyn o Fethel i'r brig ddwywaith yn yr adran i offerynwyr rhwng pedair ar ddeg ac un ar bymtheg oed. Enillodd ar y Slow Melody ac ar yr Air Varie.

Mae Owain yn aelod o Fand Llanrug, ac yn dilyn ei lwyddiant, dywedodd Paul Hughes, arweinydd y Band iddo dderbyn negeseuon o ganmoliaeth i'r offerynwyr ifanc o bob cwr o Brydain.

Merched y Wawr



Croesawyd pawb i'r noson gan y llywydd Gwyneth Jones ac aeth ymlaen i ddymuno yn dda iawn i Jen a Mike ar eu hymddeoliad o gwmni Delwedd. Gobeithio y cewch amser i ymlacio a mwynhau eich seibiant, a llawer o ddiolch am eich gwasanaeth i'r gangen yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Newyddion da oedd clywed fod merch Anita, Ffion wedi dyweddio hefo Gavin. Pob lwc i'r ddau.

Dymunwyd adferiad buan i Robin, gwr Alys.

Eisteddfod Bethel yn llwyddiant ac i Gwenllian ar ennill tlws yr ifanc.

Enillydd y raffl oedd Cecile.

Cafwyd noson Danteithion o'r Ddol, dan ofal tair o'r aelodau, Nan Rowlands, Eirlys Williams a Mary W Jones, ac fe ddangosodd y dair eu doniau coginio gyda danteithion ar gyfer y Nadolig.

Pate cig ac un arall gyda gwahanol gawsiau, cacen ddi-gluten wedi ei addurno hefo marsipan ac eisin, dau fath o druffles, relish llugaeron, teisen gri gyda llygaeron a sbeis, a stwffin ddi-gluten gyda chnau, cig selsig a garlleg.

Mawr fu'r hwyl a'r blasu gyda llawer o'r aelodau yn holi am y risetiau.

Bydd sawl cartref yn blasu rhain yn ystod yr wyl mae'n siwr.

Noson ragorol a chartrefol oedd sylwadau'r gynulleidfa.

Rhagor o luniau ar wefan y gangen mywbethel.org

Lluniau Eisteddfod Bethel



Enillydd Tlws Llenor Cynradd: Tomos Gibson ac Enillydd Tlws Uwchradd: Gwenllian Dauncey Griffiths.

Canlyniadau mis nesaf.



Heledd Prys Huws - Enillydd Llenyddiaeth Bl 7-9 Tlws er cof am Geraint Elis.

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

10



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

Ymarfer saethu

Rai blynnyddoedd yn ôl yn y golofn hon holais am leoliadau yn yr ardal a gai eu defnyddio i ymarfer saethu. Mae 'shooting range' amlwg i'w gweld yng Nghwm Brwynog, ond roedd un yng Nghwm Dwythwch ac yn Nant Peris hefyd, ond fawr o wybodaeth amdanynt.

Yn ddiweddar deuthum ar draws cofnod o agoriad swyddogol y safle yn Nant Peris, a elwid yn Glanyrafon Range. Roedd yn fis Gorffennaf 1904 a'r 3rd Volunteer Battalion R.W.F yn martsio i Glanyrafon yn dilyn cinio swyddogol yn y Snowdon Refreshment Rooms (yng Ngwesty Fictoria, o bosib). Colonel Darbshire oedd yn gyfrifol am y dathliad, ond mae'n amlwg mai'r Capten Mills Roberts (meddyg yn Chwarel Dinorwig a pheldroediwr enwog) ac aelodau'r gwirfoddolwyr fu'n gyfrifol am adeiladu'r 'range'; a'r tir wedi ei gyflwyno iddynt gan Assheton Smith o'r Faenol. Yn ei araith agoriadol roedd Cynol Darbshire yn awgrymu y dylai Mills Roberts gael ei ddychafu uwchlaw Capten o ganlyniad i'w ymdrechion yn sicrhau lle cystal a Glanyrafon i ymarfer saethu. Cyfeiriodd hefyd at waith arbennig Caplan y Gwirfoddolwyr, y Parch E.B.Thomas.

Oherwydd salwch ei gŵr, Mrs Assheton Smith gafodd y fraint o danio'r ergyd gyntaf, ond cyn hynny cyfeiriodd at yr angen i gael "well-trained and well-disciplined men for the service and the defence of the Empire." Ac mae'n amlwg mai dynion Llanberis oedd y rheini!

Ysgol Penisarwaun tua 1905

Drwy law Eifion Roberts, Llanberis daeth llythyr gan Menna Thomas, Caernarfon yn sôn am gyfarfyddiad rhyw saith mlynedd yn ôl â Mrs Ellen Williams, oedd yn byw ym Mangor ar y pryd, ond cyn hynny, o'r Felinheli.

Roedd tad Mrs Williams, sef Robert (Bob) Lewis wedi ei eni yn Pen Dinas Fawr, a mynychai Ysgol Tan y Coed (Penisarwaun). Er nad yw'r llun yn eglur iawn (copi o gopi sy'n cael ei atgynhyrchu), mae Bob Lewis i'w weld yn eistedd yn y llinell flaen; yr ail o'r chwith. Roedd tua pump oed ar y pryd.

Cyd-ddigwyddiad oedd trafod y llun gyda cyfaill yn ddiweddar, a chadarnhaodd fod Bob Lewis yn ewythr iddo, a bod dau frawd arall i Bob yn y llun hefyd, sef Owen Lewis a William Lewis.

Mae Owen wrth ymyl yr athro, y drydedd rhes i fyny ar y dde, a William yw'r bachgen cyntaf o'r chwith yn y rhes gefn. Lladdwyd William Lewis yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Symudodd Bob Lewis i ardal Saltney ger Caer, ac yno y bu byw cyn ymddeol i Laneurgain. Symudodd Owen Lewis i Fanceinion, ac yno y

Ffurfiwyd y Llanberis Volunteer Company tua wyth mlynedd yn gynharach, a dim ond dynion "of the highest reputation" oedd yn cael ymuno; pwy bynnag oedd yn penderfynu ar safon eu cymeriad. Roedd rheol arall yn mynnu mai dim ond dynion o bentref Llanberis oedd yn cael ymuno.

I hybu safon y saethu ymhlith y Gwirfoddolwyr, roedd Rheithor Llanberis wedi cyflwyno Cwpan Arian gwerth pum gini, a byddai'r holl aelodau yn cystadlu am y fraint o'i hennill, a hynny dan hyfforddiant Sarjant Newey.

Mae'n amlwg hefyd fod Assheton Smith wedi cyflwyno offerynnau cerdd i'r Llanberis Volunteers, a bod y 'band' wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i hynny.

Mae'r cyfeiriad at safle ymarfer saethu yng Nghwm Dwythwch yn gynharach, ac yn dyddio o fis Mai 1897. Roedd rhwng 700 ac 800 o aelodau o Filisia Meirionnydd a Chaernarfon (4ydd Bataliwn R.W.F.) yn cyfarfod yng Nghaernarfon ar gyfer ymarferiad saith diwrnod, ac yn gwersylla yng Nghae Tolpis (ar Ffordd Bethel). Mae un frawddeg fer yn nodi fod sgwadiâu yn cael eu hanfon yn eu tro i Lanberis i ymarfer "at the splendid new range secured in Cwm Dwythwch." Felly, tua 1897 roedd lle ymarfer saethu wedi ei adeiladu yng Nghwm Dwythwch hefyd, ac y mae olion o'r 'mantlet' neu'r cwt saethu yn dal yno. Ond lle anhygyrch iawn oedd pellafion eithaf Cwm Dwythwch, ac mae'n fwy na thebyg na chafwyd fawr o ymarferion yno. A phan sefydlwyd lle ymarfer saethu y Glanyrafon Range yn Nant Peris, mae'n bosib y rhoddwyd y gorau i ddefnyddio Cwm Dwythwch. Does ryfedd ei fod yn cael ei labelu fel 'old mantlet' erbyn cyhoeddi map O.S. 1914. Byrhoedlog iawn fu ei ddefnydd, ond mae'r ffaith ei fod yn dal i sefyll yn dangos pa mor gadarn oedd ei adeiladwaith, ac nad yw tywydd gerwin yr ucheldir wedi cael fawr o effaith arno.



treuliodd yntau weddill ei oes. Yr hyn sy'n ddiddorol yw mai uchelgais y ddau tra'n blant oedd bod yn yrrwyr tren. A dyna'n union oedd gwaith Bob yng Nghaer ac Owen ym Manceinion!

Tybed oes unrhyw un o'r darllenwyr yn adnabod rhai eraill yn y llun?

Stesion Llanberis.



A thra'n son am drên, dyma lun cynnar iawn o Stesion Llanberis a anfonwyd gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo. Sylwch ar ddillad llaes y merched ar y platform Ai adeiladau Lein yr Wyddfa sydd

i'w gweld islaw Gwesty Fictoria? Ond beth yw'r adeilad sylweddol i'r dde ohonynt?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Ysgol Brynrefail



LLYSGENHADON

Pedwar o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn gysylltu Llysgenhaden Aur yng Nghymru.

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm Llysgenhaden Aur o Loxton a Ryan Robinson, Gethin Hughes Jones blaiddeddiweddar dewiswyd y prif ddisgybl Gwynedd fel llysgenhaden hynny fe wnaethant fynwedd Llysgenhaden Aur Cymru yn ystod y cerbyd stadiwm pel-droed Caerdydd. Mae'r llysgenhaden aur yn rhan o'r cerbyd bob rhan o Gymru.



CYNGOR YSGOL

Cyngor Ysgol Brynrefail

Dyma aelodau Cyngor Ysgol Brynrefail sydd wedi eu hethol ar gyfer 2016 – 17.

BI 13 : Oslan Edwards, Nia George, Dafydd Griffiths , Math Roberts

BI 12 : Prys Hughes, Enlli Roberts, Morgan Jones, Elen Ifans, Beca Llwyd, Tomos Morgan

BI 7 - Calo Thomas , Mared Llwyd

BI 8 – Elin Morgan, Huw Owen

BI 9 – Ioan Ifans, Eleri Jones

BI 10 – Gwenllian Griffiths, Ynyr Pritchard

BI 11 – Mabon Pritchard, Miriam Lennon-Jones

Hyd yn hyn yn eu cyfarfodydd eleni maent wedi trafod y materion canlynol:

Ymddygiad
Gwobrwyo
Gwaith Cartref
Gweithgareddau Sgiliau a theithiau
Cinio ysgol
Teithio

Prif ffocws mis Tachwedd fydd cynnwys gwersi.



EISTEDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Nos Iau 8fed o Ffawr

6:30y

Croeso cynnes i bawb fynwedd

Mynediad trwy ddrwydd

Tocynnau ar werth yn

Pris Mynediad / E

Oedolion £5:00

Plant £3:00



Staff Ysgol Brynrefail yn rhedeg Marathon Eryri.

Pan gynhaliwyd Marathon Eryri ar ddiwedd mis Hydref roedd wyth o staff mwyaf heini Ysgol Brynrefail yn cymryd rhan yn y ras. Eu bwriad oedd codi arian ar gyfer y cynllun cyffrous sydd ar y gweill i adeiladu derbynfa newydd i'r ysgol fydd yn gwella diogelwch y safle. Er eu bod wedi hen redeg y ras erbyn hyn byddem yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth; gallwch ein noddi ar <https://www.justgiving.com/crowdfunding/ysgol-brynrefail>.

Yr wyth a redodd oedd Mr Arwyn Williams, Mrs Ruth Sharrock, Miss Melanie Guilleman, Mr Paul Griffiths, Mr Guto Llywelyn, Mr Iwan Barker-Jones, Mr Sion Jones a Mr Nidian Huws.

Ysgol Brynrefail yn
ghaerdydd.

Beca Llwyd, Mair
Blwyddyn 12 a
Blwyddyn 13. Yn
pedwar i gynrychioli
on aur. O ganlyniad i
ychu Cynhadledd
yn ddiweddar yn
dydd. Yr oedd 151 o
o'r gynhadledd o



NOSON AGORED



STAFF YSGOL BRYNREFAIL

NOSON AGORED

Ar nos Fawrth, Tachwedd yr 8fed cynhaliwyd noson agored yn yr ysgol i ddisgyblion blwyddyn 6 a'u rhieni. Yr oedd y neuadd yn orlawn gyda dros ddau gant yn bresennol erbyn Fand Ysgol Brynrefail gychwyn y noson gyda'u repertoire hwyliog a safonol iawn yn ôl eu harfer.

Yn dilyn hynny cafwyd cyflwyniad gan ddisgyblion Cyngor Ysgol Brynrefail yn egluro'r hyn sy'n gwneud yr ysgol yn un mor arbennig iddyn nhw. Cafwyd gair byr gan y Pennaeth Mr Arwyn Williams yn croesawu pawb i'r ysgol ac yn egluro trefn y noson cyn i'r plant a'u rhieni gychwyn ar eu taith o amgylch adrannau'r ysgol. Yr oedd pob adran wedi trefnu gweithgareddau gwahanol ar gyfer disgyblion blwyddyn 6 o wneud crempogau i chwarae gemau iaith ar ipads i greu cardiau Nadolig. Diolch o galon i ddisgyblion blwyddyn 12 a fu'n gweithio fel tywyswyr o amgylch yr ogystal yn ogystal â chefnogi'r adrannau wrth iddynt gynnal eu gweithgareddau.

Wrth fynd o gwmpas yr ysgol roedd disgyblion blwyddyn 6 wedi derbyn llyfryn ac ynddo fap er mwyn cwblhau helpa drysor arbennig iawn. Wedi casglu llythyren ym mhob adran fe welsant mai'r gair cudd oedd 'LLWYDDIANNUS'. Dyna'n wir oedd y noson ei hun – llwyddiant ysgubol. Diolch i rieni a disgyblion blwyddyn 6 am gefnogi ac edrychwn i groesawu'r plant yma am ddiwrnod o wersi cyn diwedd Tachwedd.

DFOD
OL
REFAIL

Rhagfyr 2016

h
chu cyfarfod yr hwyr
cyn yn unig
Swyddfa'r Ysgol

Entrance Fee
Adults
Children

Parhad WAUNFAWR

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Hydref oedd: £30: Mr Raymond Edwards, Felin y Wig; £20: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £10: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waun.

Yr Ysgol Feithrin Bu wythnos gyntaf mis Tachwedd yn brysur iawn yn hanes yr Ysgol Feithrin. Ar y dydd Llun cawsom ginio bach o gawl pwmpen a rôl gyda crymbl afal a hufen iâ yn bwdin. Diolch o galon i'r rhai ddaeth i'n cefnogi ac am y rhoddion a dderbyniwyd. Ar y nos Wener roedd y Ganolfan yn llawn a bu i'r plant fwynhau'r Disgo Calan Gaeaf. Diolch o galon am eich cefnogaeth.

Nos Lun, Rhagfyr Sed bydd y plant bach yn canu yn noson goleuo'r goeden Nadolig yn y Ganolfan.

Nos Wener, Rhagfyr 16eg cynhelir Disgo Dolig ar gyfer plant yr Ysgol Gynradd – cawn hwyl yn dawnsio, bwyta cŵn poeth a mins peis a llawer iawn mwy. Dowch i gefnogi.

Os am helpu cysyllter â Karen Jones, Karen Morris, Rhodri neu Irene.

Croesewir unrhyw blentyn bach sydd wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn ddwy oed i fynychu'r Ysgol Feithrin.

Llongyfarchiadau i Carol Davies, Penrhiw, ar ennill dau docyn i gêm rygbi Cymru yn erbyn yr Ariannin yng Nghaerdydd. Dyma'r tro cyntaf iddi drïo cystadleuaeth gyda rhaglen Heno ar sianel S4C a

daeth lwc ar y cynnig cyntaf. Da yndê!

Genod Gwyrfa Mae Genod Gwyrfa, sydd yn barti canu merched Waunfawr a'r Cylch, wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar. Cystadlodd y parti yng Ngŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd ar 12fed o Dachwedd a dilynwyd y gystadleuaeth gyda noson gwerth chweil yn gloddesta yn Nhafarn y Neuadd Wen, Pwllheli.

Ar Ragfyr Sed bydd Genod Gwyrfa yn canu yn Noson Goleuo Coeden Nadolig Waunfawr. Mae hyn yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i'r parti wrth i'r pentref ddod at ei gilydd i ddathlu'r Nadolig. Yn ogystal â hyn mae'r parti wedi cael ei wahodd unwaith yn rhagor i ddiddanu cynulleidfya yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Gallwch hefyd eu clywed yn canu'n beraidd yn y Snowdonia Parc, Waunfawr ar 11 Ragfyr.

Ond nid wrth ganu'n unig y gwelir eu doniau. Mae Genod Gwyrfa wedi bod yn weithgar iawn yn stiwardio ym Marathon Eryri, Etape a Llwybrau Eryri.

Fel arfer, cynhelir ymarferion Genod Gwyrfa am 8.00 yr hwyr ar nosweithiau Iau yn y Snowdonia Parc, Waunfawr. Os hoffech ymuno â nhw, cysylltwch ag Anita Myfanwy ar eryri21@hotmail.co.uk neu dewch i'r dafarn ar nosweithiau Iau (ar wahân i'r pedwerydd nos Iau yn y mis). Cewch

groeso cynnes a digonedd o hwyl.

Dymuna Genod Gwyrfa ddiolch i Carmen, Snowdonia Parc, am ei haelioni wrth gynnig lle i'r parti ymarfer.

Dathlu Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Lowri Jones, Llys Eryri, a fu'n dathlu cyrraedd ei deunaw oed yn ystod mis Tachwedd ac i Lois Jones, Tan-y-coed, Stad Bod Hyfryd, a fu'n dathlu cyrraedd ei un ar hugain oed. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol.

Graddio Dymuna Tony a Helen Brown, 2 Bryn Golau, longyfarch eu merch, Rosie, ar ei llwyddiant yn derbyn gradd ar derfyn ei chwrs Arlunio a Chrefft yn y coleg yn Wrecsam. Pob dymuniad da iddi yn ei chwrs ymarfer dysgu.

Ymdddeoliad Dymunwn bob hapusrwydd i Eirwen Jones, Cynefin, ar ei hymddeoliad o'i swydd gyda'r Gymdeithas Rhoi Gwaed.

Adref o'r Ysbyty Croesawn Mrs Betty Owen, Stad Tref Eilian, a Mr Gary Jones, Stad Dôl Erddi, adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

Mwynhau Cafodd plant ifanc y pentref fwynhau eu hunain yn dawnsio yn y ddau Ddisgo Calan Gaeaf, un a drefnwyd gan y pwyllgor pêl-droed a'r ail a drefnwyd gan bwyllgor yr Ysgol Feithrin. Yna roedd yr arddangosfa Tân Gwyllt a drefnwyd yn Bryn Eiron yn werth ei gweld.

Gwasanaethau Sul y Cofio Am un ar ddeg o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 11, cafwyd Gwasanaeth Cofio o flaen y Gofgolofn gan ddisgyblion Blwyddyn 6 yr Ysgol Gynradd. Fore Sul, Tachwedd 13, cafwyd Gwasanaeth Sul y Cofio ac edrych i'r dyfodol o dan ofal Olwen Williams a Tudur Pritchard yn Eglwys y Waun.

Cadw mewn Cof Eleni eto bydd Gwasanaeth Noswyl y Nadolig yn cael ei gynnal yn Eglwys y Waun am 4.30 o'r gloch. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco a fydd yn dod o'r wasg ar Ragfyr 16.

Noson i'r Teulu Nos Lun, Rhagfyr Sed, am 6.15 o'r gloch yn y Ganolfan bydd Coeden Nadolig y Pentref yn cael ei goleuo. Mae croeso cynnes i drigolion y pentref ddod ynghyd i glywed plant yr Ysgol Gynradd a rhai bach y Cylch Meithrin yn canu carolau, grwpiau ieuenctid cerddorol yn ein diddanu a chanu carolau cynulleidfaoel o amgylch y goeden. Bydd paned a mins pei i'n cynhesu a chyfle efallai i chi ennill gwobr o'r raffl. Dewch yn llw.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Rhagfyr

4: Parch Olwen Williams
11: Ysgol Sul / Susan Williams – Gwasanaeth Nadoligaidd
18: Carolau dan ofal Gwenda Nos Sadwrn, 24 Noswyl y Nadolig – Gwasanaeth Nadolig y pentref
25: Dim oedfa.


KERFOOTS EST 1874
136-140 HIGH STREET, PORTHMADOG, GWYNEDD. LL49 9NT
Ref:- ECW

Dewch draw i'r Siop am sbec – mae rhywbeth i bawb yma!
Gorffenwch eich ymweliad a phaned, teisen neu bryd o fwyd blasus mewn awyrgylch hamddenol.

=====

DISGOWNT O 10% WRTH GYFLWYNO'R HYSBYSEB YMA AR NWYDDAU O'R SIOP, NEU FWYD A DIOD O'R TY COFFI.
(Ni chaniateir ei ddefnyddio gyda unrhyw gynigion arall sy'n bodoli ar y pryd)

=====

www.kerfoots.com enquiries@kerfoots.com
Tel: 01766 512256

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a

John Brynafon LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

POSH PAWS


TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Parhad WAUNFAWR

Dathlwch y Nadolig gyda Antur Mae menter gymdeithasol Antur Waunfawr yn brysur yn paratoi ar gyfer y Nadolig. Mae amrywiaeth o anrhegion ar gael yn y siop grefftau yn Waunfawr, a bydd tîm Antur hefyd yn mynd â'u crefftau i Ffair Nadolig Ysgol Pendalar ar 01 Rhagfyr. Bydd Caffi Blas y Waun yn cynnig ciniawau 'Dolig tri-chwrs tan 15 Rhagfyr. Cewch fwyd cartref bendigedig mewn awyrgylch cynnes a chyfeillgar, i gyd am £17.95! Mae'r caffi hefyd yn cynnal 'Brecwast gyda Siôn Corn' rhwng 19-23 Rhagfyr; oedolion £4.99, plant £3.99, sy'n cynnwys anrheg i bob plentyn a chyfle i gyfarfod y dyn ei hun! Ar 02 Rhagfyr, o 6.30yh, bydd safle Waunfawr hefyd yn cynnal ei Ffair Nadolig poblogaidd, Miri Siôn Corn. Gyda chwmni disgyblion Ysgol Waunfawr , bydd stondinau yn gwerthu anrhegion, gwin cynnes, mins peis, chyfle i gwrdd â Siôn Corn, yn ogystal â rhai gwesteion arbennig i ganu! Felly pam na fynd i ysbryd y Nadolig eleni ac ymuno mewn dathliadau Nadoligaidd yr Antur! Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, LL55 4BJ. Rhif ffôn: 01286 650721



Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
 PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
 PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ 07759415753
 3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

**DEWCH I FWYNHAU
HWYL YR WYL**

Dydd Iau Rhagfyr 15^{Fed}

Festri CAPEL COCH am 2

Yng Nghwmni

CARYS EDWARDS
a ffrindiau

BYTHOL WYRDD

Eitemau Nadoligaidd

Mynediad £2.50 Yn cynnwys TE a MINS PEI

Yr Elw Tuag At Gyfeillion Plas Pengwaith

Hyn ac Arall Trên Bach yr Wyddfa

Ni fyddai'r diweddar Rol Williams, a aned ym Mrynrefail ac a fu am gyfran teg o'i oes yn trigo ym mhentref y Waunfawr, byth-bythoedd, a hynny mewn sgysiau difyr ag ef, yn amlach na dim byd arall ar balmant stryd neu ar fwrdd bws, yn mynd ati i ddilorni mwy nag mawrhau'r Wyddfa. Gŵr i'w edmygu ydoedd a Chymro Cymraeg di-flewyn iawn ar dafod.

Testun ei sgwrs gyntaf ar y radio sain, hynny yn y flwyddyn 1947, ydoedd – ie! 'Dringo'r Wyddfa'. Ys gwn i ydi hon ar gael mewn storfa o eiddo'r Bi Bi Ec ym Mangor, Gwynedd? Mi fyddai'n dda gweld y sgwrs yn cael ei hail-dyrchu a'i chynnwys eleni, os nad y flwyddyn nesaf fel eitem ddiddorol ar raglen nodwedd o eiddo'r BBC.

O glandro syniadau, a hynny'n feddyliol, hyd yn oed mentro taro rhifau ar daflen newydd sbon danlli o bapur, mi roedd hi eleni meddan nhw i mi yn gant ac ugain mlynedd ers agor lein y trên bach o Lanberis i gopa'r Wyddfa, er mai fel arall y dyddiau goleuedig hyn yr honnir mor daer ag erioed, a hynny gan wybodusion mawr yr oes ar daflenni gwybodaeth! Ni fwriadaf olrhain hanes agor y lein oherwydd mi wnaeth hanesydd penigamp hynny yn y flwyddyn 1987, hefo Gwasg Mei, Penygroes, yn cyhoeddi 'Heibio Hebron, Hanes Trên Fach yr Wyddfa'. A'r awdur? Ie, Rol! Ac os nad ydyw'r llyfryn ar eich silff adref yna mynychwch, da chwi, eich llyfrgell leol a holwch yno, a bendithied chi am 'Heibio Hebron' Rol Williams. Dyma un gyfrol, ymhlith nifer o gyfrolau doeau pentrefi dalgylch Eco'r Wyddfa, sy bellach heb fod ar werth yn ein siopau llyfrau, canolfannau ymwelwyr, gan gynnwys rhai gerllaw copa a throed yr Wyddfa, sydd angen ei hailgyhoeddi, fel ei bod i ni'r cyhoedd yno i'w phrynu, ei mwynhau a'i thrysori. Nid marw mo unrhyw lyfr o'i ddarllen, a hynny mwy nag unwaith. Ond dychwelaf at lein fach yr Wyddfa, ac yntau Rol:

'Agor y lein - 6 Ebrill 1896,' meddai. 'Roedd Llun y Pasg yn ddiwrnod heulog a'r awyr yn glir uwch gweddillion yr eira ar greigiau'r Wyddfa. Ar doriad gwawr anfonwyd nifer o weithwyr y lein i gerdded pob cam ohoni o Lanberis i ben yr Wyddfa gyda'r gorchymyn eu bod i wneud sylw o bob modfedd o'r trac.'

Y mae'r awdur sylwgar yn mynd rhag blaen i ddatgan:

'Credai Cyfarwyddwr y cwmni nad oedd angen seremoni agoriadol swyddogol er i nifer o bobl yr ardal ddod i weld yr injian gyntaf a'i gerbyd yn symud i'w lle ger y platform yn Llanberis i gludo pedwar ugain o deithwyr i'r copa.'

Agor lein y Trên Fach? Mawr fu clod y beirdd! Cynhwysir eu henwau a'u penillion yng nghyfrrol amhrisiadwy Rol Williams (1987).

Serch hynny, ychydig yn y Wasg a gynhwyswyd o ran hanesion unrhyw ddathlu a fu. Hwyrach fy mod i'n methu'n arw, cofiwch chi! Ond ni welais gwhwfan o'r Ddraig Goch i gofio 6ed Ebrill 1896 yn unman; ni fues i, os na fuoch chwi, mewn unrhyw arddangosfa ble cafwyd copi ar gael o 'Heibio Hebron' a phytiau sylweddol ar daflenni wedi eu gosod ar furiau, a'r oll yn ymwneud â hanes y Pasg, Llanber, y flwyddyn 1896, a'r cyfan fel y'i croniclwyd mor fywiog o drylwyr gan Rol Williams, ac ni chlywais, tra'n ista'n dawl ar graig wrth ochr y lein fach, ganu gwladgarol Hogia'r Wyddfa, a hynny wrth i'r trên bach yn ystod 6ed Ebrill 2016, deithio i fyny'r llechwedd tua'r orsaf ar ymyl copa mynydd uchaf Cymru. Ond dyna fo, hwyrach fy mod i'n ei methu hi'n o arw. Os ydwyf, ymddiheuraf hefo hen lwch Cwm Glas a deiliach ffres Cwm Brwynog wedi eu taeno tros fychander fy mhen a'm ymennydd. Beth a ddywedai'r diweddar Rol ys gwn i petai o yma i weld hyn i gyd? Ni allaf ond dyfalu. Dymunaf lawenydd Gŵyl y Geni i chwi oll, a blwyddyn newydd dda i bawb pan ddaw hi.

Dafydd Gruffydd Ifan

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug
01286-673108

Bwydydd, Dioddydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch



Canlyniadau Llwyfan Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch

Canu Ysgol Feithrin 1af – Guto 2 – Ella Llefaru
Ysgol Feithrin 1af – Guto 2 - Ella
Canu Dosbarth Derbyn 1af – Leo 2-Cadi
Canu Blwyddyn 1 a 2 1af – Anian 2- - Deion
3 – Ella a Jack
Llefaru Blwyddyn 1 a 2 1af – Deion 2 – Ell 3 –
Jack a Anian Canu Blwyddyn 3 a 4 1af – Tryfan
2 – Elli 3 – Gwion a Lois Llefaru blwyddyn
3 a 4 1af – Tryfan 2ail- Lois 3ydd – Elli Canu
Blwyddyn 5 a 6 1af – Elin Dafydd 2 – Erin
Wyn 3 – Erin Lewis Llefaru Blwyddyn 5 a 6
1af – Erin Lewis 2 – Erin Wyn Alaw Werin
Blwyddyn 6 neu iau 1af – Erin Wyn Canu
Eryn Blwyddyn 6 neu iau 1af – Elin Dafydd
Unawd offerynnol Blwyddyn 6 neu iau 1af
– Elin Dafydd 2 – Caio Grwp Offerynnol
Blwyddyn 6 neu iau 1af – y 4 tenor – Elin
Dafydd, Erin Lewis, Caio Foulkes, Elin Glyn
Grwp Llefaru blwyddyn 6 ac iau Y Syrffwyr –
Ysgol Gwaun Gynfi Parti neu gor blwyddyn 6
ac iau Cor Ysgol Gwaun Gynfi
Enillydd Cadair Eisteddfod I ddisgyblion
Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gwaun Gynfi am waith
Llenyddol
Sion Elidir
Enillydd tlws er cof am Mr Iwan Williams,
Manceinion am yr ymgais orau yn yr adran
gerdd
Elin Dafydd
Enillydd tlws Crud yr Awel, Porth y Gogledd
am yr ymgais orau yn yr adran lenyddol
blwyddyn 6 ac iau Ari Hughes

Enillydd tlws er cof am Mrs Nancy Edwina
Jones am y perfformiad gorau i blant blwyddyn
2 ac iau
Deion
Enillydd Cwpan er cof am y diweddar Mr W
J Eames am yr ymgais orau yn yr adran Adran
Arlunio I blant blwyddyn 6 Ysgol Gwaun
Gynfi Mac Hughes
Enillydd tlws Mary a John am yr ymgais orau
yn yr adran llefaru blwyddyn 6 ac iau Tryfan
Jones

Canlyniadau Cyfarfod y Nos
Unawd Blwyddyn 7-1 1af – Twm Tudor,
Llanrhuddlad 2 Dafydd Bean, Deiniolen 3
Ioan Bean, Deiniolen
Canu Eryn Blwyddyn 7-11 1af – Dafydd
Bean, Deiniolen 2 Ioan Bean, Deiniolen 3
Twm Tudor, Llanrhuddlad
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod Blwyddyn 7-11
Twm Tudor, Llanrhuddlad Unawd Piano
Blwyddyn 7-11
1af – Ioan Bean Deiniolen 2 Elli Owen
Deiniolen Unawd Alaw Werin Blwyddyn 7-11
1af – Ioan Bean Deiniolen 2 Dafydd Bean,
Deiniolen Unawd Cerdd Dant blwyddyn 7-11
1af Dafydd Bean, Deiniolen
Ysgoloriaeth yr Eisteddfod 16-25 oed Erin
Fflur, Y Felinheli Nerys Wyn Williams,
Abertawe
Enillydd Cadair yr Eisteddfod Richard Morris
Jones, Caernarfon

Enillydd Medal Lenyddol dan 25oed Catrin
Llewelyn, Deiniolen
Unawd Piano Agored 1af Catrin Llewelyn,
Deiniolen
Darllen darn heb ei atalnodi 1af Prys Hughes,
Deiniolen 2 Beca Jones, Deiniolen 3 Anna
Lewis, Deiniolen Deuawd Agored 1af Dafydd
a Ioan Bean Unawd Agored 1af Erin Fflur Y
Felinheli 2 Twm Tudor, Llanrhuddlad Llefaru
Agored 1af Nia Haf, Llanrug 2 Prys Hughes
Deiniolen
Cwpan Bryn Du am yr ymgais orau adran
gwau a gwnio Mrs Mona Parry, Deiniolen
Cwpan Clwb Snwcer am yr ymgais orau adran
gwaith coed Elli Tate, Deiniolen
Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams am yr ymgais
orau yn yr adran gerdd dan 21 oed Catrin
Llewelyn Deiniolen
Tlws Y Cerddor dan 25 oed Catrin Llewelyn
Deiniolen
Stori Fer, Tlws er cof am y diweddar John David
Evans, Maes y Dref. Sian Teifi, Llanfaglan
Ysgrifennu sgets neu eitem ddigri, cwpan
coffa'r diweddar Mrs Dilys Mair Hughes, Ty'n
Weirglodd.
Beryl Griffiths, Trefor
Tlws Teulu Cae Main am yr ymgais orau yn
yr Adran Celf a Chrefft. Linda Ganatsiou,
Thesaloniki, Groeg

Parhad DEINIOLEN

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch
Eleni, trefnu digwyddiadau Nadolig yr Ŵyl fydd fel a ganlyn:

Rhagfyr 2il: noson rhoi'r goleuadau Nadolig ymlaen
Rhagfyr 14eg: groto Siôn Corn
Rhagfyr 18fed: taith Siôn Corn o amgylch y pentref a'r ardal.

Ceir manylion llawn o'r gweithgareddau ar dudalen Facebook yr Ŵyl.

Cyfarchion y Nadolig
Dymuna Mrs Jennie Williams, 1 Rhydfadog, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau, gan na fydd yn anfon cardiau eleni.

Llongyfarchiadau i Elin Dafydd ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Deiniolen (gweler canlyniadau)

Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Talwrn. Cafodd 2ail hefo unawd ac 2ail hefo corn. Da iawn ti.

Llongyfarchiadau i y "4 Tenor" a ddaeth yn 1af yn y quartet yn Eisteddfod Deiniolen. Diolch i Gareth o'r band am eu hyfforddi.

Llongyfarchiadau i Catrin Llewelyn ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Deiniolen (gweler canlyniadau)

Cymdeithas Undebol Deiniolen Yng Nghyfarfod cyntaf y tymor yn nhŷ Elidir ar Fedi 26 cyflwynodd y Llywydd, y Parch John Pritchard, un o hogia ni, sef Malcolm Allen, cyn chwaraewr Cymru a sydd nawr yn sylwebydd i Sgorio. Cawsom noson ddifyr yn ei gwmni tra bu'n bwrw golwg nŵl a'r lwyddiant tîm pêl-

droed Cymru yn Ffrainc eleni, rhannodd ei atgofion am gystadleuaeth yr Euros.

Diolchwyd iddo yn gynnes gan Mr Bryan Price.

Diolchiadau Dymuna Mr Neville Thorman Jones ddiolch yn garedig i'w deulu cymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, ac am yr ymweliadau iddo tra cafodd llawdriniaeth yn ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd, ac yn arbennig diolch i ddoctoriaid a nyrsys ward Dulas.

Ysgol Gwaun Gynfi Sioe Y Tuduriaid - Tachwedd 9ed, 2016

Daeth actor o gwmni Hanes Mewn Cymeriad i'r ysgol i gynnal drama Y Tuduriaid i blant Bl 3 i 6. Roedd y plant wedi mwynhau a dysgu llawer.

Diwrnod Plant Mewn Angen Roedd llawer o smotiau a streipiau yn yr ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Casglwyd £152 tuag at yr elusen. Da iawn chi.

Gala Nofio yr Urdd Dyma rai o'r plant fu'n cynrychioli'r ysgol yn Gala Nofio'r Urdd ym Mangor. Pawb wedi mwynhau a gwneud eu gorau.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig Mae llawer o'r plant wedi bod yn paratoi anrhegion y Nadolig i blant mewn gwledydd eraill fyddai heb anrhegion. Dyma rhai o aelodau'r Cyngor Ysgol gyda ychydig o'r bocsys.

Dymuniadau'r Ŵyl. Ni fydd Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa yn anfon cardiau i'w theulu a'i ffrindiau eleni, ond hoffai ddymuno Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA
I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth BAWB yn

ARFON GARAGE
DEINIOLEN

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn-(01286) 872304




*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda*

i'n holl
gwsmeriaid
oddi wrth bawb ym

**menter
fachwen**

(01286) 872014



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833**
Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)


  **CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**
Cyrrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CWMY GLO

Undeb y Mamau Ymunodd yr aelodau a'u ffrindiau ym Mron Menai, Caernarfon, bawn Mawrth, 15 Tachwedd a chafwyd cinio Nadolig blasus iawn yno. Mwynhawyd y prynhawn gan bawb. Aeth rhai o'r aelodau i'r cyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth ar 18 Tachwedd.

Bydd gwasanaeth o lithoedd a charolau yn Eglwys Sant Mair bawn Mawrth, Rhagfyr 13.

Marwolaeth Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 7fed o Dachwedd, wedi gwaeldd byr, bu farw Mr Edward Elwyn Foulkes (John El) yn 80 mlwydd oed. Yn enedigol o Lanberis wedi priodi â Catherine ac ymgartrefu yn Nhan-y-Bryn ac yna yn 3 Rhes Bryn. Roedd y dorf enfawr a ddaeth i'w angladd yn Eglwys Sant Padarn Llanberis ar Dachwedd 12fed yn dyst o'i boblogrwydd. Gwasanaethwyd gan y Canon Robert Townsend gyda Dr William Munro wrth yr organ. Talwyd teyrnged urddasol a theimladwy gan ei gefnder, Dafydd Ellis. Rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Nant Peris. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Cathrine, ei ferch Karen a'i chymar, John, ei fab David, ei wyrion Liam ac Adam a'i wyres Aimee a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a ffrind triw i lawer, a chymydog aredig a chymwynasgar.



Daeth y tymor yng ngogledd Eryri i ben gyda Ras Penmaenmawr, un o'r rasys hynaf yng nghalendr rhedeg mynydd Cymru. Ac er fod y tywydd wedi oeri cryn dipyn a chaenen o eira ar y copaon uchaf, cadwodd yn sych ar gyfer ras eleni – er fod digon o wlybanaeth dan draed!

Enillydd y ras eleni oedd Gareth Hughes, bachgen lleol a gafodd dymor hynod lwyddiannus, yn enwedig mewn rasys pellter hir. Yn Ras Penmaenmawr roedd ar y blaen o'r cychwyn cyntaf, gan ymestyn ei fantais fesul milltir o amgylch y cwrs deng milltir.

A chwta ddeufis o orffwys gaiff y rhedwyr mynydd, oherwydd bydd y tymor yn ail-gychwyn ar 11eg o Chwefror gyda Ras Moelcy.

Yn y cyfamser bydd dwy ras arall yn cael eu cynnal yn Llanberis dros gyfnod y gwyliau. Ar y bore Sul cyn y Nadolig bydd ras flynyddol Clwb Rhedwyr Eryri o amgylch Llyn Padarn yn cychwyn a gorffen ferl arfer o flaen Gwesty Fictoria. Cyfle i redeg o ddifrif neu i wisgo gwisg ffansi neu gymdeithasu wrth drotian rownd y llyn. A chyfle hefyd i ddyfalu amser Sion Corn ac ennill gwobrau.

Yna, ar Nos Galan cynhelir rasys o amgylch strydoedd Llanberis. Bydd mwy o wybodaeth am yr achlysur hwn yn rhifyn Nadolig yr "Eco".

Odyn Copr

Parc
Padarn

Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda

Ffon-871366

**CELF Y
COPÄON**
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Peintiadau
- ★ Printiadau



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i Bawb

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP

Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader

01286 673559

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

BOSCH Service

Car Service

For everything your car needs.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



DMM
CLIMB NOW WORK LATER

Nadolig
Llawen
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA

Oddiwrth
BAWB yn

DMM
LLANBERIS

www.dmmwales.com



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



Ar ben arall i'r lein

Adroddiad Blynyddol

Mae'n bleser cael cyflwyno'r adroddiad yma ar ein gweithgareddau yn ystod 2016. Fe gofiwch i'r flwyddyn flaenorol ddarford gyda llifogydd anferthol o amgylch dyddiau'r Nadolig, gyda'n tair afon tros eu glannau. Gwelwyd llunia o gaeau Crawia dan ddŵr a charafannau Glan Gwna fel cychod ar y môr. Bu newid i sawl torlan a phwll ar hyd ein hafonydd, a difrod hefyd i'n heiddo yng Nghrawia, er ei bod yn braf cael adrodd bod y gwirfoddolwyr sydd yn gwarchod y lle wedi gweithio'n galed i gywiro'r gwallau a chael trefn ar y ddeorfa eto, a diolchaf iddynt ar eich rhan.

Bu'r gwanwyn yn hir yn ein cyrraedd, a hyd ddiwedd Ebrill roedd yr eira'n britho llethrau'r Wyddfa a'i chriw, a'r dŵr yn hir yn dechrau cynhesu. Ac eto daeth ambell frithyll da o'r afonydd, yn arbennig y Seiont, er gwaetha'r ias. Roedd hi'n rhylllyd hefyd ar lan Llyn Padarn wrth iddi hi nosi ond, efallai yn annisgwyl, roedd nifer dda o frithyll wedi eu dal gan ein aelodau, ac yn ôl y sôn gan rai heb docyn hefyd. Clywsom am dorgoch a ddaeth i law yn ystod yr wythnosau cynnar. Rydym ni fel cymdeithas bysgota yn annog ein aelodau i roi'r torgoch yn eu holau i'r dŵr oherwydd y trafferthion diweddar ond does dim posib rheoli rhai sydd yn pysgota heb fod yn aelodau o'u cymdeithas bysgota leol. Ac hefyd bu mwy o'r draenogiaid – gweler rai o'r lluniau ar galeri ein gwefan - mae rhai wedi bod yn pysgota'n benodol am yr rhain ac yn cael dipyn o hwyl arni, ond pysgod estron ydynt – yn adlewyrchu effaith y llygredd a newid balans y llyn a'r gadwyn fwyd. Faint o'n pysgod mudol sydd wedi mynd i'w boliau i gynnal y fath dyfiant? Gobeithiwn wir y bydd y gwellhad graddol yn safon y dŵr yn cywiro'r sefyllfa, a Llyn Padarn unwaith eto yn llai addas ar gyfer y draenogiaid, a'r pysgod mudol yn ymwthio i ail-gymeryd eu safle naturiol yn ein dyfroedd.

Cafwyd mwy o sewin yn y Seiont yn ystod yr haf ac wrth i mi ysgrifennu clywais am sewin wyth pwys wedi ei ddal yn ardal y Rhyd Feiniog, Llanrug.

Fel pob blwyddyn, mae'n tymor yn darford ar adeg pysgota'r eog. Yn ystod mis Awst roedd rhyw lygedyn o obaith pan ddalwyd nifer ar y Seiont - ac ar rai afonydd eraill yng ngogledd Cymru hefyd, ond tawel iawn fu hi ers hynny. Gobeithiaf bod mwy wedi dod i'r rhwyd cyn i chi ddarllen hwn.

Ond ar y Llyfni daeth sewin di-ri gyda phob llanw o fis Mehefin ymlaen, a bu pysgota ardderchog o ddechrau nosweithiau hwyr yr haf hyd tywyllwch nosau'r hydref. Roedd y niferoedd yn fwy a'r pysgod eu hunain yn frasach, a pawb yn dal yn ei dro. Bu llwyddiant i aelodau ac i gyd-enweirwyr oedd yn cefnogi ein gweithgareddau tra'n cael gwyliau ym Melin y Cim.

Roedd Nantlle a Cwellyn wedi pysgota'n dda am frithyll ar hyd y tymor, a straeon am bysgod mudol, mawr, yn nyfnderoedd Llyn Cwellyn, ond yno maent hyd heddiw. Cafodd llwybr pysgod Llyn Cwellyn ei ail wneud ar ddiwedd 2015. Daliwyd sewin ar y Gwyrfa'i yn ystod yr haf, ond ni chlywais am eog.

Unwaith eto bu cynllun stocio Llyn Dywarchen yn lwyddiant mawr. O ddechrau'r tymor cafwyd mwynhad gan ein aelodau yn dal brithyll brown a brithyll yr enfys. Eleni eto cafodd peth o'r stoc eu cadw

yng Nghrawia i'w pesgi a'u rhyddhau i'r llyn yn ystod mis Awst, pan ddechreuodd yr hwyl go iawn. Roedd y pysgod yn slabia mawr ac yn tynnu'n iach. Gwelais docyn un ymwelwr bodlon wedi iddo ddal 3 pysgodyn am gyfanswm o dros bymtheg pwys.

Yn anffodus roedd hanes y daliadau'n tynnu sylw rhai sydd yn malio dim am hawlia nac eiddo. Eto ac eto bu achosion o bysgotwyr heb docyn, yn aml yn sbinio'n ddigwylydd ar ben yr argae. Roedd ymatebion bygythiol, annifyr ar sawl achlysur wrth i aelodau eu herio a'u hel ymaith. Cofnodwyd rifau ceir a disgrifiadau, ond fel mewn blynyddoedd diweddar difaterwch oedd ymateb yr awdurdodau wedi derbyn yr hanesion.

I bob pwrpas daeth achos Llyn Padarn yn y llysoedd i ben. Mae'n anodd dilyn trywydd y dadleuon, sydd bellach mor amherthnasol i helynt a thynged y torgoch. Yn y bôn, penderfynodd barnwr y llys yn Llundain na ddylid caniatáu ein hapêl diwethaf yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru. Hyn ar sail bod unrhyw lygredd ers 2007, neu sydd yn dal i ddigwydd hyd heddiw, ac felly'n ymestyn yr amser a gymerir i'r llyn gyrraedd yn ôl i'w gyflwr naturiol, di-lygredd, ddim yn cyfri fel llygredd fel y cyfryw yn ôl deddfau amgylcheddol Ewrop. Felly nid oes achos i'w ateb. Os fedrwyd chi ddilyn a chytuno efo'r fath resymeg cewch fod yn dwnai, mae'n siwr. Roedd ein trwnai yn amau hefyd bod y barnwr yn gyndyn i ganiatau'r apêl, oherwydd yr "effaith llifddor"-hynny yw petai'n caniatáu'r apêl, yn ddi-os buasai nifer fawr o ganolfannau trin carthion drwy'r wlad yn ymddangos yn ddiffygiol hefyd a chostau ac oblygiadau enfawr ar draws Prydain. Felly, yn siomedig i ni, cau'r drws ar yr achos oedd y canlyniad.

Beth bynnag, er gwaetha'r penderfyniad gwantan yma, a'r gemau cyfreithiol sydd wedi eu chwarae, gallwn weld bod buddugoliaeth foesol sicr i'r Gymdeithas. Wedi ein ymgyrchu dros ddegawdau, o'r diwedd mae llygru'r llyn gan ddiffygion hanesyddol gwaith trin carthion Llanberis wedi ei gydnabod, a safonau llawer llymach wedi eu gorfodi ers 2009, a safon y dŵr wedi gwella, er bod angen gwella sylweddol eto. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i wneud gwaith i wella cynefinoedd y dyfroedd er mwyn caniatáu i'r eog sydd yn cyrraedd pen eu taith gael manteisio'n llawn wrth fwrw eu grawn. Mae'r graean ym Mhenllyn wedi ei dagu a'i gau gan weddillion yr algae, a'r hesg wedi ymestyn drostynt, a'r eog wedi cilio o'r gwelyau claddu hanesyddol. Ar ddiwedd yr haf codwyd yr hesg a rhoddwyd ambell garreg fawr ar y safle er mwyn atgyfnerthu llif y dŵr a denu'r pysgod i ail afael ar gladdu rhwng y pontydd. Gobeithiwn y bydd pysgod i'w gweld yno tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Tra bod gwaith yn mynd yn ei flaen i wella'n cynefinoedd ar yr un llaw - ar y llaw arall mae'r gwaith o godi mân safleoedd cynhyrchu trydan "hydro" yn ein dyffrynnoedd wedi bygwth yr union fannau sydd mwyaf gwerthfawr, ond bregus, i fagu eog a sewin y dyfodol. Wrth gwrs mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn goruchwyllo'r ceisiadau a'r gwaith wrth iddo fynd yn ei flaen, ond mae sawl digwyddiad pryderus wedi bod, a physgotwyr yr ardal sydd fwyaf gwyliadwrs ac yn ymateb gyntaf ym mhob achos.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, y trysorydd, y cyfarwyddwyr ac aelodau'r pwyllgor, yn ogystal â'r rhai sydd yn weithgar yn clirio a chynnal y glannau a'r cychod, ac yn trefnu tocynnau i'r siopau. Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2016.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd a phob hwyl gyda'r enwair yn 2017.

Robin Parry

AM BETROL. DIESEL. OLEW ac
AMRYFAL ANRHEGION MODURO
PAPURAU NEWYDD A
PAYPOINT

GORSAF BETROL
LONDON GARAGE
CWM- Y- GLO
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN DDA I BAWB
Ffôn-Llanberis 872046

Rhan o deulu Antur Waunfawr
1 Cei Llechi, Caernarfon, LL55 2PB
Ffôn: (01286) 676804 / 07436 797969
Gwefan: www.beicsmenai.co.uk
BeicsMenai

Beics Menai Bikes
Peidiwch â cholli cynigion gaeafol Beics Menai!

- Gwasanaeth gaeaf o £30!
- Amrywiaeth mawr o bartiau ac ategolion
- Cyngor cyfeillgar gan ein technegwyr cymwysedig
- Gwasanaeth gosod beic am £25 yn unig!
- Huriwch feic am gyn lleied â £15 y diwrnod!
- Beiciau wedi'u haddasu ar gael i'w llogi
- Dewis gwyh o anrhegion yn ein siop, gyda bargeinion i'w gael yn y sêl!

Dewch i mewn am sgwrs i drafod eich anghenion!

P e n - b l w y d d
Llongyfarchiadau mawr i Gwyn Davies, Ffordd yr Orsaf, sydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed. Pob hwyl ar y dathlu.

Pen-blwydd Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Vera Williams, Awelon, hithau hefyd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Diolchiadau Fe ddymunia Mair Williams, 19 Tal-y-Bont, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar y cyntaf o Dachwedd.

Diolchiadau Dymuna Mrs Megan Owen, Cynefin, 3 Nant y Glyn, ei merch Glenda, ei wŷr Ashley a'i wyres Nicole, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd gan deulu, cymdogion a ffrindiau

trwy ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau, hefyd y swm sylweddol o arian dderbyniwyd at elusennau Hospis yn y Cartref a Chapel Noddfa, Caernarfon, er cof am John.

Diolch yn arbennig i'r Cynghorydd Tecwyn Thomas, Caernarfon, gynt o Fryniau Fawnog, Llanrug, ffrind bore oes i John, am ei holl gefnogaeth a gafwyd ar amser anodd iawn.

Profedigaethau

Yn sydyn iawn, bu farw Norman Jones yn 73 mlwydd oed. Brawd ffyddlon i Charles a Jim a Rita. Bu yn byw yng Nghaernarfon ers llawer iawn o flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn fawr â chi fel teulu yn eich colled.

Cofiwn at Dennis a Laura Pritchard, Afon Rhos, yn eu profedigaeth hwythau o golli mam Dennis yn Rhosgadfan. Bydd colled fawr i chi i gyd fel

teulu, cydymdeimlwn â chwi yn eich profedigaeth.

Yn ddiweddar bu farw Winston Anthony Roberts yn ei gartref gyda'i wraig, Andrea, a'r plant, yng Nghaernarfon. Magwyd Winston yn Glan Moelyn ac ymgartrefu ar ôl priodi yng Nghaernarfon. Cafwyd dau fab, Peter a Michael, a fu'n gysur mawr iddo yn ystod ei waeledd. Bu ei wraig, Andrea yn hynod weithgar yn Eglwys Sant Mihangel yma yn Llanrug a chafodd gefnogaeth arbennig gan yr aelodau a sawl ffrind yma hefyd.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyr atoch fel teulu.

Priodas Aur Llongyfarchiadau i Olwen a Goronwy Hughes, Afon Rhos, ar ddathlu 50 mlynedd o briodas ddiwed mis Hydref.

Capel y Rhos Ar 13eg o Dachwedd, cyflwynwyd

gwasanaeth arbennig ar gyfer Sul y Cofio gan wyth o aelodau a chyfeillion. Diolch i bob un ohonynt am eu parodrwydd i gymryd rhan.

Yn ystod gwasanaeth bore Sul, Tachwedd 20fed, bedyddiwyd Cian Llŷr, mab Dafydd a Ffion Davies, 44 Nant y Glyn. Roedd ei chwaer fawr, Beca, yn gwmni i Cian yn y sêd fawr. Pob bendith arnoch fel teulu.

Oedfaon mis Rhagfyr

4: Y Gweinidog, y Parch Marcus W. Robinson

11: Mr Eurfryn Davies

28: Oedfa Nadolig – gwasanaeth yr Ysgol Sul

25: Oedfa i'r teulu ar fore'r Nadolig

Plaid Cymru

Ennillwyr Clwb cant Mis Tachwedd

1..Carrie Owen, Ty Fry

2..John Roberts, Bedw Gwynion

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Margaret Parry, a chychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Megan yn cyfeilio. Derbyniwyd hrai ymddiheuriadau a chydymdeimlwyd â Mrs Megan Owen ar farwolaeth ei gŵr a thad a thaid annwyl.

Llongyfarchwyd Julie ar ddod yn nain i Branwen, merch fach i Llinos a Darren. Dymunir pob lwc i Olwen, Ann, Bethanne, Eirianwen a Linda fydd yn cystadlu yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd ddiwed mis Tachwedd.

Mae cais ar i bob cangen ddathlu'r 50 yn ystod 2017. Cytunwyd i gefnogi cais gan Bwyllgor Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo am gyfraniad nodedig i helpu gyda'r costau cynyddol i gefnogi'r gweithgaredd ddiwylliannol yma sydd mor bwysig i blant a phobl ifanc y gymuned.

Gwesteion y noson oedd Angharad, Janet a Linda o Grefftau Howget. Angharad gyda chrefftau nodwydd, Janet gyda chardiau elusen Cancr a Linda gyda nwyddau Howget yn cynnwys nwyddau wedi eu personoli. Y mae'r tair yn cefnogi Marchnad Ogwen – marchnad gynnyrch a gynhelir ar yr ail Sadwrn o bob mis yn Neuadd Ogwen Bethesda o 9.30–1.30. Mae'n ofynnol bod y stondinwyr yn cynhyrchu eu nwyddau eu hunain gyda ymroddiad i'r Gymuned leol hefyd. Mae 16 stondin barhaol ar

hyn o bryd gyda chynnig i stondin elusen am ddim bob mis. Cychwynnwyd y Farchnad tua 10 mlynedd yn ôl bellach o syniad gan Chris Jones. Ers 6 blynedd mae'r Farchnad ar ei thraed yn ffurfiol o dan arweiniad Pwyllgor brwdfrydig o'r stondinwyr mewn safle parhaol yn Neuadd Ogwen.

Mae pwyslais cryf iawn ar gynnig amrywiaeth o gynnyrch, h.y. Wedi ei dyfu, ei goginio neu ei gynhyrchu â llaw yn lleol. Mae'n ofynnol am safon uchel i'r cynnyrch. Gyda phob un o'r stondinwyr bwyd hefo'r sgôr hylendid bwyd 5, sef y safon uchaf posib. Y bwriad yw croesawu pawb i awyrgylch gartrefol Gymreig hapus y Farchnad. Mae'r stondinwyr yn edrych ar ôl ei gilydd ac yn meithrin a mentora gwerthwyr ifanc, trawstoriad o oed a phrofiad yn y Farchnad. Cynhelir Marchnad Ogwen nesaf fore Sadwrn, Rhagfyr 19fed o 9.30 tan 1.30. Wedi'r cyflwyniad difyr gan Linda fe fwynhaodd pawb gael edmygu'r nwyddau a chael cyfle i brynu ac archebu.

Diolchwyd i Angharad, Janet a Linda am noson hynod o ddiddorol. Diolchwyd i Ann, Myfanwy a Phyllis am y baned. Jean, Heulwen, Eryl ac Eirian fydd yng ngofal y baned ym mis Ionawr. Ar nos Fawrth, Rhagfyr 13, byddwn yn dathlu efo Cinio Nadolig yn y Celt. Dewch â'ch awgrymiadau am Ddathlu'r 50 hefo chi os gwelwch yn dda. Pawb i fod yn y Celt erbyn 7.00.

Newyddion yr Ysgol Gynradd

Cyngerdd Nadolig. Mae'r disgyblion eisoes yn brysur yn paratoi ac yn ymarfer ar gyfer y cyngherddau Nadolig. Bydd Cyngerdd y Babanod ar Ragfyr 6ed yn yr ysgol, a Chyngerdd yr Adran Iau ar Ragfyr 15fed yn Ysgol Brynrefail.

Blwyddyn 1 a 2. Cafodd y plant drip diddorol i Gae'r Gors, Rhosgadfan a chael eu tywys o amgylch y tŷ ble magwyd yr awdures Kate Roberts. Dysgodd y plant am sut brofiad oedd hi i fyw heb

drydan a beth oedd plant o'u hoedran hwy yn ei wneud yn eu hamser hamdden.

Chwaraeon. Mae plant yr Adran Iau wedi bod yn cael pob math o brofiadau chwaraeon. Mae yr Urdd yn rhoi gwersi hoci wythnosol i'r genethod. Mae'r bechgyn a'r genethod yn mwynhau'r clwb pel-droed, a daw Nathan Craig o Gaernarfon draw ddwywaith yr wythnos i'w hyfforddi. Dymunwn ddiolch i Nathan hefyd am rodd o rwydi goliau

i'r ysgol.

Blwyddyn 6. Mae'r disgyblion eisoes wedi bod ar eu hymweliad cyntaf ag Ysgol Brynrefail, a phawb yn ol pob sôn, wedi cael modd i fyw gyda gwersi Addysg Gorfforol, Daearyddiaeth a Ffrangeg.

Plant Mewn Angen. Cynhaliwyd diwrnod arbennig ar 17ain o Dachwedd er mwyn codi arian. Trafodwyd gwahanol syniadau gan y Cyngor Ysgol, a dewiswyd gwisgo pyjamas a chael gwallt

gwirion' ar y diwrnod. Bu staff y gegin yn brysur yn coginio 300 o gacennau, ac addurnwyd hwy gan aelodau'r Cyngor Ysgol. Casglwyd £372 tuag at yr elusen.

Cyflwyno gwobrau.

Mewn cyfarfod arbennig, gwobrwywyd holl blant yr ysgol a fu'n llwyddiannus yn Adran Celf a Chrefft yr eisteddfod leol.

Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERFATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

Parhad LLANRUG



Band Llanrug

Mae'r Band wedi cael wythnosau prysur iawn dros y mis diwethaf, gan gynnwys cystadlu yn Rochdale a Holmfirth, a chymryd rhan yng ngwasanaethau Sul y Cofio yn Llanrug a Chaernarfon. Ddiwedd mis Tachwedd roedd y band yn cymryd rhan yng ngwasanaeth cloi arddangosfa'r dagrau pabi yng Ngastell Caernarfon.

Bydd eu cyngerdd blynyddol yn cael ei gynnal yn Theatr Seilo ar y noson y daw'r "Eco" hwn o'r wasg, ond mae cyfle arall i'w clywed yn y Gadeirlan ym Mangor ar y 12fed o Ragfyr yng Nghyngerdd y Gwasanaethau Brys am 7.30. Byddant hefyd yn gorymdeithio drwy'r pentref cyn y Nadolig yn canu carolau, a chynhelir y noson mins peis arferol hefyd.



Eisteddfod Llanrug



Amser yn Hedfan

Pwy feddyliai fod blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r Co-op ail-agor yn y pentref? Mae'r siop bellach fel pe bai wedi bod yma erioed, a chafwyd parti – yn y siop – i ddathlu penblwydd un oed. A bu nifer o'r cwsmeriaid yn lwcus o ennill y gwahanol wobrau oedd ar gael i ddathlu'r achlysur.



Un funud fach ...

DYHEADAU SYML

Mae'n debyg nad yw 'dyheadau syml' yn golygu'r un peth i bawb. Un o anfoneision byw yn Llanberis yw bod rhaid dibynnu ar fast Bigil am wasanaeth teledu Freeview. Mae'n debyg bod Freeview yn cynnig o leiaf 74 o sianelau, ond does ond 19 ar gael trwy 'Bigilvision'. Mi allwn ddweud mai 'dyhead syml' i mi fyddai medru gweld hanner dwsin o sianelau eraill. Ond go brin y byddai VTV yn un ohonyn nhw.

VTV ydi gwasanaeth teledu cenedlaethol Fietnam. Ac ar y sianel honno, yn ôl a ddeallaf, y gwelwyd un o gyn-drigolion Sir Fôn y dydd o'r blaen yn trafod magu plant. Mae materoliaeth, meddai, yn golygu fod gan bobl lawer o bethau nad ydyn nhw wir eu hangen; a gobeithiai weld ei blant yn ceisio'r pethau syml wrth iddyn nhw fynd yn hŷn. Un o'i obeithion mawr fel tad oedd y byddai ei blant – y mab a'r ferch – yn meithrin 'dyheadau syml'.

Mae'n siŵr fod sylwadau'r dyn yn ddiffuant ac yn ddigon clodwiw. Pwy wyf fi, beth bynnag, i awgrymu'n wahanol? Ac eto, fedraf fi ddim peidio â meddwl nad oes yna fyd o wahaniaeth rhwng 'dyheadau syml' plant William a'i wraig a 'dyheadau syml' y rhelyw ohonom. Wedi'r cwbl, George a Charlotte yw'r trydydd a'r pedwerydd olynnydd i Goron Lloegr. Heblaw am gyfoeth a grym, heblaw am gastell a'r goron, heblaw am glod a gwrogaeth gwlad, pa bethau 'syml' eraill y dylai plant bach William a Kate ddyheu amdany'n nhw?

Yn wahanol i William, ac yn wahanol o bosibl i lawer ohonom ninnau, does gan filiynau o ddeiliaid y Deyrnas y bydd o'n Frenin arni ryw ddydd ddim amser na hamdden i ddyheu am bethau syml. Maen nhw'n rhy brysur yn dyheu am bethau mawr. Dyheu, nid am gastell ond am dŷ; nid am gyfoeth, ond am ddigon; nid am rym ond am degwch; nid am goron ond am swydd; nid am glod ond am barch; nid am wrogaeth ond am gyfiawnder.

Ar bob cyfrif, dyrchafwn ddyheadau syml, gan annog ein gilydd i geisio llawenydd, i fodloni ar lai, i werthfawrogi cwmni, i drysori cyfeillgarwch, i fwynhau pob math o bethau na all holl aur y byd eu prynu. Ond gwnawn hynny gan gofio ei bod yn haws doethinebu am bethau syml o'r fath pan fydd pobl eraill wedi cael eu siâr o'r pethau mawr. Haws, er enghraifft, fydd annog dyn i fodloni ar lai pan fydd ganddo do uwch ei ben a bwyd yn ei fol.

Pwy a ŵyr, os llwydda'r eglwysi i gyfrannu mewn rhyw ffordd at sicrhau rhai o angenrheidiau mawr bywyd i'w cymdogion, na ddaw cyfle iddynt hefyd i annog y bobl hynny i ddyheu am y pethau mwy fyth sy'n cael eu cynnig yn rhad yn yr Arglwydd Iesu Grist? Oherwydd dyhead syml a dyhead mawr pob Cristion yw bod eraill yn dod i brofi'r pethau mwy hynny.

JOHN PRITCHARD

FFERM FÊL YR WYDDEA

NADOLIG LLAWEN



A BLWYDDYN NEWYDD DDA

SNOWDON HONEY FARM

STRYD FAWR LLANBERIS

Ffon- 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



GWIN A MEDD

CAEATHRO Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf, Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com

Tynfa Misol Tachwedd 1af(44) £40 Stephen a Kerry, 9 Bryn Gôf; 2il: (112) £25 John Jones, Garreg Lwyd; 3ydd: (48) £15. Wil Hughes, Cefn Gwern.; 4ydd: (86) £5 Laura Griffiths, Stad Glandŵr.

Bore Coffi Macmillan Ar fore Sadwrn, Hydref 1af, cynhaliwyd bore coffi a stondinau i godi arian i wasanaeth gofal cancr Macmillan. Daeth llu o bentrefwyr ynghyd i gefnogi'r achos teilwng a gwnaed elw o £610.

Diolch unwaith eto i Llio Jones, Glanrafon Bach, am drefnu'r bore gyda chymorth aelodau o Glwb Merched Caeathro a diolch i bawb ddaeth â chacennau hyfryd i'w gweini hefo paned.

Llongyfarchiadau Yn yr Ŵyl Cerdd Dant ym Mhwllheli yn ddiweddar daeth parti Tegeirian o Gaeathro yn ail yn y gystadleuaeth i bartion. Llongyfarchiadau mawr ar eu llwyddiant. Clwb Merched Caeathro Ar ôl egwyl dros yr haf daeth nifer dda ynghyd i gyfarfod cyntaf y tymor o'r Clwb sydd yn cyfarfod yng Nghanolfan y Capel ar y nos Iau olaf o bob mis. Eingŵr gwadd oedd Geraint Lovgreen o Gaernarfon, cyfieithydd wrth ei alwedigaeth ond sydd hefyd yn gerddor, yn fardd, yn gyfansoddwr ac sydd i'w glywed yn rheolaidd ar Dalwrn y Beirdd ar Radio Cymru. Wrth ei gyflwyno, cyfeiriodd y Llywydd, Rhiannon Roberts, at ei lwyddiant yn fuddugol yn y Brifwyl yn Abergafenni eleni mewn cystadleuaeth i gyfieithu nofel o'r Ffrangeg i'r Gymraeg. Cawsom orig lenyddol a cherddorol yn ei gwmni, a chael gwrandao ar amrywiaeth o farddoniaeth cynnil, ffraeth, doniol a sensitif. Roedd ei ddatganiadau cerddorol yn arbennig iawn, a'r acwsteg yn y capel yn ei siwtio i'r dim, ac aelodau'r clwb wrth eu bodd.

Wrth dalu diolchiadau mynegodd Bethan Iwan ein gwerthfawrogiad o noson wych a thalu diolch hefyd i Llên Cymru am noddi'r noson. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau, Hydref 27, pan fydd John Grisdale yn cyflwyno portread o waith Tîm Achub Mynydd Llanberis.

Gwasanaethau y Capel

Rhagfyr 4ydd am 2.00 gwasanaethir gan y Parch Marcus Robinson ac i ddilyn am 3.00 cynhelir Cyfarfod Swyddogion.

Rhagfyr 18 ed am 5.30. Oedfa Nadolig gyda aelodau, plant, pobl ifanc, cyfeillion a Gweinidog yr Eglwys. Bydd paned, mins pei a chymdeithasu i ddilyn.

Ar Ddydd Nadolig cynhelir Oedfa Gymun yn Y Cysegr, Bethel am 10.00.

Llywydd y mis fydd Huw Ceiriog, a'r organydd Iona Ceiriog.

Gwellhad Buan Dymunwn yn dda i Dewi Jones, Erw Wen, sydd wedi cael sawl triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac i Deiniol Hughes, Tŷ Mawr, yntau heb fod yn dda yn ddiweddar. Brysiwch wella eich dau. Hefyd cofiwn am Nia Parry Jones, Bryn Eglwys, sydd yn gwella ar ôl triniaeth pen-glin yn ddiweddar.

Cydymdeimlad Anfonwn ein cofon at Mrs Tracy Jones, Stad Glandŵr, sydd mewn galar wedi colli ei mam yn ddiweddar.

Clwb Merched Ar nos Iau, Hydref 27, daeth Mr John Grisdale o Gaernarfon atom i rannu ei brofiadau eang iawn o waith Tîm Achub Mynydd Llanberis. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei gwmni, ac yntau yn aelod o'r tîm ers y cychwyn yn y chwedegau, ac sydd ar hyn o bryd yn is gadeirydd ac yn sylwebydd i'r wasg. Cawsom gipolwg ar y gwaith caled, gwirfoddol mae'r tîm achub yn ei wneud trwy gydol y flwyddyn i achub bywydau. Mae'r gwasanaeth yna i bawb er bod ambell unigolyn a grŵp heb baratoi yn ddigonol ar gyfer mynydda!! Diolchwyd i John gan Marian Hughes. Gan nad oedd is swyddogion wedi eu hethol cyn yr haf rhoddodd y cadeirydd, Rhiannon Roberts, y cyfle i aelodau ethol ar gyfer 2017-18, a phenodwyd Beryl Roberts yn gadeirydd, Nan Huws Roberts yn yn ysgrifennydd a Iona Thomas yn drysorydd. Edrychwn ymlaen i groesawu Miss Eirian Pritchard atom ddiwedd Tachwedd cyn ein cinio Nadolig yng Ngwesty Bryn Eisteddfod ar nos Wener, Rhagfyr 9ed. Mae croeso bob amser i aelodau newydd.

Anffawd Problem gyfrifiadurol oedd yn gyfrifol am nad oedd newyddion Caeathro yn yr Eco fis Tachwedd. Ymddiheurwn am hyn a dewch â newyddion fel arfer dros y Nadolig i Rhiannon Roberts os gwelwch yn dda.

HERIO CUTHBERT

Tra bo Alex Cuthbert yn cael tymor siomedig gyda Chymru yng nghemau'r Hydref, mae Rhun Williams wedi cymeryd ei gyfle gyda thîm y Gleision. Yn chwarae ar yr asgell dde, llwyddodd Rhun i sgorio tri chais yn ei ddwy gêm gyntaf. Tybed a all Rhun gael ei le yng ngharfan y Gleision ar gyfer Cwpan Her Ewrop?

YWAUNAMY‘JUNIOR’?

Mae'n siwr fod ardal yr Eco yn unigryw yn hanes Cwpan Iau y Gogledd. Yn eu tro – weithiau sawl tro – ennillwyd y gwpan gan Lanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel. I ni yn y parthau hyn roedd rhywbeth arbennig mewn ‘trip’ i un o dimau'r arfordir neu bellafion Sir Fflint. Roedd un o'r gemau butraf a chwaraeais ynddi yn y cwpan draw yn Abergele, a minnau gyda Llechid. Wir, roedd Abergele deg gwaith gwaeth na Llechid! Gan i ni ennill a gorfod cerdded rhyw 500 llath o'r cae i'r stafell newid gallwch ddarlunio'r sefyllfa o'r mwd a'r geiriau â daflwyd atom. Diolch fyth am hogia fel Emrys Coch, Einion a Brian Corbri i'n gwarchod. Wrth gwrs dyfarnwr o'r 'ochor draw' fyddai hi yn y fath gemau, a'n defnydd o'r iaith Gymraeg yn codi gwrychyn. Roedd trip i ffwrdd i R.A.F. Sealand yn un dda gyda chwrrw ond 1/6 y peint yn y NAAFI – a llond bol o fwyd.

Erbyn heddiw gyda ail strwythuro'r cynghreiriau nid yw Llanberis a Llanrug - na'i ail dimau am ryw reswm – yn cael cystadlu bellach. Ond, mae timau Cynghrair Gwynedd yn yr het. Felly Waunfawr sy'n chwifio'r faner dros y fro. Dechreuodd y daith gyda buddugoliaeth draw yn y Rhyl yn erbyn tim Y Glannau o 2-1. Tim diddorol yw'r Glannau wedi ei sefydlu i ddod a Chymry Cymraeg at ei gilydd a hyrwyddo'r iaith mewn ardal fregus. Nid yw record gemau cynghreiriol y Beganifs yn llewyrchus ar hyn o bryd ond gwyddom am eu record dda yn y cwpanau. Gobeithiwn felly ddilyn rhediad da ganddynt y tymor hwn.

Nofio o Dover i Calais

Mae Mel Roberts o Frondeg, Gallt y Foel wedi cwblhau sialens epig dros yr Hydref, sef nofio hyd y Môr Udd dros gyfnod o ddeg wythnos. Nofiodd Mel hyd sydd yn gyfatebol i fynd o Dover i Calais. O ganlyniad, mae hi wedi codi dros £400 i elusen ‘Aspire’ sydd yn rhoi cymorth i bobl sydd gydag anafiadau i fadruddyn y cefn.

GWELD Y DYFODOL

Gallwn fod wedi traethu'n hir am berfformiadau ‘siomedig’ timau pêl-droed a rygbi cenedlaethol Cymru y mis yma. Rwyn siwr fod digon o drafod, beio a dadansoddi wedi eich diflasu o sawl cyfeiriad. Terimlaf fod mwy o broblemau – ar ac oddiar y cae- gan fyd y bêl hirgron.

Ond yn ystod y mis codwyd fy nghalon gan ddwy gêm a welais ar Nantporth. Dwy fuddugoliaeth hefyd ar lefel tîm pêl-droed dan 19 Cymru. Curo Lloegr 3-2 – ar ôl bod 0-2 i lawr – ac yna curo eu cyfoedion o Lwcsembwrg o 6-2. Y dull o chwarae oedd yn plesio. Digon o symud, pasio celfydd ac ymosodwyr oedd yn gallu taro'r rhwyd. Un yn arbennig, Nathan Broadhead, yn wreiddiol o Lanfairpwll ac erbyn hyn yn chwarae i Everton. Ei daid yr arch-rwydwr o'r 60'au Tony Broadhead. Yno hefyd roedd chwaraewyr ar lyfrau Lerpwl, West Brom, Chelsea ac Abertawe o'r Uwch Gynghrair. Y cwestiwn mawr yw â fydd y chwaraewyr yma yn gwneud eu marc gyda'r clybiau yma? Un peth sydd yn sicr byddant yn derbyn hyfforddiant o'r raen uchaf a gall hynny ond elwa y tîm cenedlaethol yn yr hir dymor.



ATODI’RENWAU

Mae'n siwr fod nifer ohonoch wedi ceisio cofio enwau aelodau tîm criced Ysgol Brynrefail a ymddangosodd yn yr Eco mis diwethaf. Cefais sgwrs gyda Dic Parry, ac yntau'n nodi mai dyma ei flwyddyn gyntaf o ddysgu ym Mrynrefail. Diddorol gweld yr athro mewn blazer, crys a tei ac nid y dracwisg gyffredin a welir heddiw.

Dyma'r aelodau, gan ddechrau o'r chwith yn y rhes ôl.

Gwilym Williams (Dol Afon), Gwilym Williams (Deiniolen), Myfyr Evans-Jones, Michael Lloyd Jones ac Owie Williams.

Yn y rhes flaen o'r chwith : Valaire Lambrecht, Gwilym Bryn Roberts, Dic Parry, Tom Pritchard, Keith Thomas. Yn eistedd mae Colin Jones a Bobi Davies.

Ar wahan i'r bêl-droed bu Gwil Bach a Dic Parry yn chwarae i dim criced Fron Dinas am sawl tymor. Mae Gwilym Bryn yn byw yn Bow St., Aberystwyth a chwaraeais yn ei erbyn pan fyddai yn cynhyrchioli Sir Drefaldwyn ym Mhencampwriaeth Siroedd y Gogledd. Roedd Colin Jones yn chwarae i dîm ysgolion Sir Gaernarfon yn y cyfnod yma. Aeth Gwilym Williams (Llangefni), Valaire Lambrecht (Manceinion) a Tom Pritchard (Bethesda) ymlaen i fod yn athrawon. Roedd Dylan, mab Tom yn gricedwr da a chynrychiolodd Sir Gaernarfon droeon.

Dros 50 mlynedd yn ôl. Pwy fuase'n credu.

Cyfeiriodd Huw Hughes wrthyf fod criced yn gêm boblogaidd yn Neiniolen y cyfnod yma, a hwythau'r plant 'ifanc' yn gorfod wynebu 'fast bowlers' hŷn. Un yn sicr, fuasai Dyfrig Thomas, a oedd yn chwarae i dîm ysgolion Sir Gaernarfon gyda Colin Jones a minnau.

Clwb Snwcer Llanrug

Mae Clwb Snwcer Llanrug yn chwilio am chwaraewyr newydd ac yn cynnig hyfforddiant i chwaraewyr ieuanc sydd â diddordeb mewn chwarae'r gêm . Os ydych a diddordeb, cysylltwch ag Aled Roberts ar 01286-239231.

Mae croeso hefyd i chwaraewyr mwy profiadol wneud defnydd o'r cyfleusterau yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug yn ystod y dydd neu gyda'r nos. Cysylltwch a Goronwy Hughes ar 01286-674839 am fwy o wybodaeth.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y
PRINCE
OF WALES
LLANBERIS
870708
Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

NADOLIG LLAWEN
& BLWYDDYN NEWYDD DDA


Oddiwrth bawb yn
LONDON
GARAGE
Cwm-y-glo

MOT, Teiars, Gwasanaeth ac Atgyweirio

Ar agor 9-5 Llun-Gwener
9-1- Sadwrn

Ffôn- 870234

 **HUW**
OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN
O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

 Ebost- lisa.huw@btinternet.com

 **ORIEL**
CWM
CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

Chwaraeon

Marathon Eryri



Calan Gaeaf yw'r dyddiad traddodiadol ar gyfer cynnal Marathon Eryri, ac eleni daeth mwy o gystadleuwyr nac erioed i herio'r cwrs o amgylch yr Wyddfa, gan gynnwys dwy ddringfa galed, sef i gopa Bwlch Llanberis a thros Fwlch y Groes. Russell Bentley, yn wreiddiol o Gaint, ond bellach, oherwydd cysylltiadau teuluol, wedi ymgartrefu ym Meddgelert, oedd yn fuddugol. Bron na ellir dweud ei bod yn draddodiad bellach i redwyr lleol ennill y ras!

Matthew Ward, yn wreiddiol o fro'r "Eco" oedd yn sylwebu ar y llinell derfyn – yn Gymraeg a Saesneg, a rhaid ei ganmol am gynnal sylwebaeth bron yn ddi-dor am yr holl amser y bu rhedwyr yn ymlwbro i'r diwedd; rai ohonynt oriau wedi i'r enillydd ei throi am adref.

Diolch hefyd i Jayne Lloyd, Pontrug, trefnydd y ras, a'i thim o gynorthwyr, llawer ohonynt yn cynrychioli gwahanol fudiadau lleol a fydd yn elwa'n ariannol o'r achlysur. Heb y tim tu ôl i'r llenni, ni fyddai'n bosib cynnal digwyddiad mor llewyrchus.

Eleni, roedd tim o athrawon Ysgol Brynrefail yn cystadlu.



Mae eu hanes ar y dudalen ganol. Gyda diolch i Gwynfor James, Deiniolen am y lluniau. Diolch iddo hefyd am ei ganiatad parod i gael defnyddio ei luniau yn yr "Eco" gydol y flwyddyn.

HERIO'R DEILIAID

Unwaith eto y mis yma mae tîm pêl-droed hŷn merched Bethel yn denu sylw. Maent yn dal i gyhwfan baner yr ardal yng nghystadleuaeth Cwpan Cymru. Wedi curo Penrhyncoch, yn yr ail rownd cafwyd buddugoliaeth dda draw yn Ninbych o 3-2. Roedd tîm profiadol Dinbych wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol y llynedd. Wedi ildio gôl gynnar daeth gôl Sioned Philips â Bethel yn gyfartal ar yr hanner. Mari Gibbard yn eu rhoi ar y blaen ond Dinbych yn unioni'r sgor gyda deg munud i fynd. Brwydro caled a 'digon o galon' a gyda thri munud i fynd Gwenno Gibbard yn sgorio'r gôl dyngedfenol.

Ymlaen i'r wyth olaf felly, ac efallai her fwyaf y clwb ers ei sefydlu. Yn teithio draw i Fethel fydd tim profiadol Dinas Caerdydd. Merched y brifddinas yw deiliaid y cwpan.

Ni chwaraeir y gêm tan fis Chwefror ac rwy'n siwr daw torf dda i gefnogi'r merched. Dyma'r union lwyddiant i symblu timau eraill y clwb. Bethel, gyda llaw yw'r unig glwb o'r wyth olaf nad ydynt yn chwarae yn Uwch Gynghrair Cymru. Y mae llywyddiant yn denu llygaid y dewiswyr cenedlaethol, ac mae Ffion Williams sy'n fyfyrwraig yng Ngholeg Menai wedi ei gwahodd i lawr i Gaerdydd (ble arall?) yn y dyfodol agos i ymarfer gyda charfan Colegau Cymru. Efallai gallai gael dipyn o dips am dim Caerdydd tra bo hi yno.



Y gobaith mawr yw gallu chwarae y gêm bwysig ar Gae Coed Bolyn. Ar hyn o bryd mae timau Bethel yn chwarae eu gemau cartref i 'ffwrdd' ym Mrynrefail neu'r Felinheli. Mae'r elfen traenio wedi gweithio, ond yn anffodus nid yw'r hadu wedi cydio ym mhob man. Gobeithio am aeaf mwyn felly, fel y gellir rhoi 'hell' i'r Hwntws ym mis Chwefror.